

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 505 • Rhagfyr 2019 • 50c

Llwyddiant cenedlaethol Meleri

Roedd hi'n 24-awr go brysur i Meleri Davies, Prif Swyddog Partneriaeth Ogwen yn ddiweddar, wrth iddi gipio dwy wobr cenedlaethol am ei gwaith ym maes cynaliadwyedd.

Yn gyntaf, cafodd gwaith Meleri ei gydnabod yng Ngwobrau Ynni Gwyrdd Cenedlaethol fel 'Arloeswr Ynni Gwyrdd'. Roedd y beirniaid yn canmol ei gwaith pwysig ym mhrosiect Ynni Ogwen i ddatblygu'r cynllun hydro cymunedol ac yn fwy diweddar yr ymdrechion gyda chynllun trafniadaeth trydan cymunedol.

Yna, mewn seremoni yng

Nghaerdydd, fe wnaeth Meleri sicrhau un o'r brif dlysau yng Ngwobrau Academi Cynaliadwy Cymru. Yn cystadlu yn erbyn unigolion profiadol a gweithgar, roedd gwaith cymunedol Meleri yn amlwg wedi plesio'r beirniaid.

Talwyd teyrnged penodol at waith arbennig Meleri fel Prif Swyddog Partneriaeth Ogwen wrth arwain llu o brosiectau adfywio cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol yn y Dyffryn.

Yn naturiol ddigon, roedd Meleri yn falch iawn o

dderbyn y gydnabyddiaeth.

Meddai: "Mae'r gwobrau yma'n dystiolaeth o waith caled ac ymroddiad tîm o gydweithwyr a chyd-wirfoddolwyr sy'n caru Dyffryn Ogwen. Diolch iddynt i gyd am gael cydweithio efo nhw. Ymlaen â ni rŵan i ddatblygu'r gwaith ymhellach yn 2020 er budd ein cymuned ni."

Yn sicr, mae'r ddwy wobr yma yn benllanw blynyddoedd o waith diflino ganddi a chriw Partneriaeth Ogwen. Rydan ni'n lwcus iawn ohonynt yma - llongyfarchiadau mawr!



Meleri yn derbyn gwobr Pencampwr Cynaliadwyedd Cymru



Eisteddfod i'w chofio



Cafwyd deuddydd o fwynhad a chystadlu brwd yn Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen eto eleni.

Yn ôl yr arfer ers blynyddoedd bellach, roedd y cyfarfod nos Wener ar ffurf cyngerdd yn Neuadd Ogwen. Cafwyd cymysgedd o ganu, llefaru a pherfformiadau offerynnol o safon uchel ynghyd â seremonïau urddo'r prif lenorion.

Roedd cyfarfod dydd Sadwrn yn gyfle i blant y cylch arddangos eu talentau ac roedd neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen yn fwrwm o gystadlu a mwynhad pur trwy gydol y dydd.

Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu a diolch am y mwynhad!

Mae ambell lun o'r cystadlu ar dudalen 17. Bydd y canlyniadau llawn a rhagor o luniau y cystadlu i'w gweld yn rhifyn Ionawr.



Côr Iau Ysgol Llanllechid yn gwfreiddio'r gynulleidfa gyda'u cyflwyniad ardderchog o "Calon Lân".

Nadolig 2019

A ddaw seren eleni - i'n harwain

Yn hwyr at y Geni?

Down i swynol garoli

Am led awr i'th ymyl Di.

Dilwyn Owen



Panel Golygyddol

Derfel Roberts
☎ 600965
derfel.roberts@btinternet.com

Ieuan Wyn
☎ 600297
ieuanwyn01@gmail.com

Lowri Roberts
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

Neville Hughes
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

Rhodri Llŷr Evans
☎ 07713 865452
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Owain Evans
☎ 07588 636259
owain.evans1@gmail.com

Carwyn Meredydd
☎ 07867 536102
carwynnian@hotmail.com

Swyddogion

Cadeirydd:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais drwy'r post:
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
Carwyn Meredydd.

Golygydd mis Ionawr fydd
Trystan Pritchard,
27 Allt Penybryn,
Bethesda, LL57 3DB.
07402 373444
E-bost: trystanrp1@gmail.com

**PWYSIG; TREFN NEWYDD
O RIFYN IONAWR YMLAEN GOFYNNIR
I'R DEUNYDD GYRRAEDD Y GOLYGYDD
5 DIWRNOD YN GYNT NA'R ARFER.**
(Gweler yr enghraifft gyntaf isod.)

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn,
28 Rhagfyr** os gwelwch yn dda. Casglu a
dosbarthu **nos Iau, 16 Ionawr**,
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

DALIER SYLW: NID OES GWARANT
Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD
YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD
CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

Archebu
trwy'r
post

Gwledydd Prydain – £22
Ewrop – £30
Gweddill y Byd – £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

EGLWYS UNEDIG BETHESDA
LLENWY'R CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned.
Bob bore **dydd Iau** rhwng **10.00** o'r gloch
a hanner dydd.

Clwb Cyfeillion
Llais Ogwan

Gwobrau Rhagfyr

£30 (134) Brenda Wyn Jones,
Pen y Bronnydd,
Tregarth.
£20.00 (71) Elfed Bullock,
Maes y Garnedd, Bethesda.
£10.00 (169) Rita Lewis, Pantglas,
Bethesda.
£5.00 (116) Gwyn Roberts,
Rhes Buddug, Bethesda.

(Os am ymuno, cysylltwch
â Neville Hughes – 600853)

Dyddiadur y Dyffryn

Rhagfyr

- 22 Gwasanaeth Naw Llith a Charol.
Eglwys St. Tegai, Llandygai am 5yh.
24 Cymun cyntaf y Nadolig. Eglwys St.
Tegai, Llandygai. 11yh.
27 Gig Nadolig, Celt, Gwilym a mwy.
Neuadd Ogwen am 7.30.

Ionawr

- 09 Cymdeithas Capel Jerusalem. Hogia'r
Bonc. Y Ffestri am 7yh.
11 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen.
9.30 – 1.
13 Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen.
Howard Huws. Ffestri Jerusalem am 7.
16 Noson Gasglu a Dosbarthu'r Llais.
Cefnfaes am 6.45.
18 Bore Coffi er cof am Vernon Owen.
Cefnfaes 10 – 12.
30 Noson Bingo Santes Dwynwen.
Neuadd Talgai am 7.

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn
yn swyddfa'r deillion, Bangor
01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael
trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn
copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch
ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel
golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â
phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Mae Llais Ogwan ar werth
yn y siopau isod:

Dyffryn Ogwen
Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda
Siop y Post, Rachub
Barbwr Ogwen, Bethesda

Bangor
Siop Forest
Siop Menai
Siop Ysbyty Gwynedd

Caernarfon Siop Richards
Porthaethwy Awen Menai
Rhiwlas Garej Beran



CYMRAG

Rhoddion
i'r Llais

- £25 Er cof am y ddiweddar
Mair Owen, Rhoswyn,
Penrhosgarnedd, gan y
teulu.
- £12 Emyr a Heulwen Roberts,
Ystradawel, Bethesda.
- £10.50 Mrs. Eurwen
Griffiths, Rhes Mostyn,
Bethesda.
- £25 Er cof am Bronwen
Davies oddi wrth Alan a'r
teulu, Porthaethwy.
- £20 Er cof am Mair Williams,
25 Arafon, Mynydd
Llandygai, oddi wrth y
teulu.
- £20 Er cof annwyl am Dylan
Rowlands, oddi wrth
mam, dad, a'r teulu
- £50 Er cof am Edith Elizabeth
Hughes (gynt o 5 Erw
Faen, Tregarth), oddi
wrth Jo Arwel Hughes a'r
teulu.
- £20 Er cof annwyl am
Brenda Owen, Ffordd
Ffrydlas, oddi wrth
Selwyn, Alwena, Nerys a
Medwyn.
- £10 Er cof am Raymond
Williams, Rhes Douglas,
gan ei briod, Barbara a'r
teulu.
- £18 Mrs Shirley Caruthers,
Bae Penrhyn, Conwy
- £8 Mrs Donna Coleby,
Preston
- £8 Mrs Eirwen Hughes,
Ripponden, Snowery
Bridge
- £28 Mrs Ann Huws, Y Fali,
Ynys Môn
- £63 Mrs Susan Jeffries,
Caerdydd
- £10 Mrs Mair Jones, Windsor
- £10 Mrs Idanwen Moore,
Bangor
- £50 Mr Bryn Roberts,
Caerdydd a Mrs Jois
Snelson, Dinbych er
cof am Caeron a Nancy
Roberts, Tregarth
- £28 Nadolig Llawen i bawb
yn Nyffryn Ogwen,
oddi wrth Arthur
a Nerys Rowlands,
Cefnddwysarn
- £3 Mr a Mrs Deri Tomos,
Llanllechid

Diolch yn fawr.

Edrych nôl ar
ddiwedd cyfnod

Wedi 23 blynedd yn athrawes a phennaeth yn Ysgol Pen-y-bryn ac yn fwy diweddar yn Abercaseg ym Methesda, bydd Mrs Ceren Lloyd yn ymddeol ar ddiwedd y tymor.

Nôl ym mis Ionawr 1997 daeth Mrs Lloyd i'r ardal fel Dirprwy ac athrawes blwyddyn 6 yn Ysgol Pen-y-bryn. Ers 2004, bu'n Bennaeth Pen-y-bryn, ac yn fwy diweddar hefyd yn gyfrifol am Ysgol Abercaseg ac yn Bennaeth parhaol ar y ddwy ysgol ers dros tair blynedd.

Mae'n edrych ymlaen at gael treulio mwy o amser efo'r teulu yn y flwyddyn newydd. Ond mi fydd hi'n gweld hi'n ddigon rhyfedd ar y cychwyn.

"Rydw i wedi cael amser wrth fy modd yma ac wedi treulio y rhan fwyaf o fy ngyrfa ym Methesda. Mi fyddwn i'n hoffi diolch i'r gymuned am eu cefnogaeth ar hyd y blynyddoedd," meddai.

"Dwi wedi bod yn ffodus iawn hefyd i gael cyd-weithio hefo penaeithiaid presennol a chyn-benaethiaid cynradd ac uwchradd hynod gefnogol drwy gydol fy nghyfnod yma ym Methesda.

"Mi fydd hi'n rhyfedd ac mi fyddai yn siwr o weld colli'r amser yng nghwmni'r plant a'r staff. Yr hyn sy'n braf ydi fod yn lot o'r staff wedi bod yma efo fi ers nifer o flynyddoedd ac rydan ni yn dal i fod yn ffrindiau!"

Fel un o Dalysarn, mae'n dweud ei bod wedi cael ei chroesawu yn gynnes i Ddyffryn Ogwen ac y bydd yn gweld colli'r ardal.

"Mae yna rywbeth tebyg iawn yng nghymunedau Dyffryn Ogwen ag ardal Talysarn lle ces i fy magu. Roedd addysg wastad yn beth hynod o bwysig, ac efo hynny roedd pwys ar y diwylliant a chadw'r traddodiadau yna yn fyw.

"Yn ystod fy nghyfnod yma ym Methesda, rydw i wedi ceisio sicrhau fod hyn yn parhau yn ganolog i'r ysgol. Mae'r profiadau ychwanegol mae plant yn ei gael trwy gyngherddau a chymryd rhan a chefnogi'r Eisteddfod yn bethau sy'n aros yn y cof i mi, ond hefyd i'r disgyblion dwi'n gobeithio."

Does dim cynlluniau penodol ar gyfer 2020 eto, ond mae hi wedi gaddo' y bydd hi'n mynd i deithio i rywle efo Ian y gŵr.

"Yr hyn y byddai yn edrych ymlaen ato ydi cael treulio mwy o amser efo'r teulu i gyd. Rydw i'n nain ers ychydig flynyddoedd rwan ac mae mi fyddai'n nain eto yn fuan yn 2020, felly mae hi'n gyfnod cyffrous ac rydw i'n edrych ymlaen at y cyfnod nesaf."

Mae Mr Gethin Thomas, sydd ar hyn o bryd yn Bennaeth Ysgol Pentreuchaf wedi ei benodi yn olynnydd i Mrs Lloyd. Bydd yn dechrau ar ei gyfnod ym Methesda ar ôl y Pasg, gyda phennaeth mewn gofal tan hynny. Croeso i Eirian Madine a fydd yng ngofal yr ysgol am dymor o fis Ionawr.

Diolch Mrs Lloyd am eich gwaith ar hyd y blynyddoedd – a peidiwch bod yn ddieithr!



Mrs Lloyd gyda rhai o blant Abercaseg

Enaid Eryri – cyhoeddi cyfrol


Mae cyfrol newydd wedi ei chyhoeddi yn ddiweddar sy'n plethu ffotograffau trawiadol o dirluniau'r ardal gyda geiriau rhai o awduron mwyaf amlwg y cyffiniau.

Mae 'Enaid Eryri' yn benllanw dwy flynedd o gynllunio, ysgrifennu a ffotograffau gan Richard Outram.

"Roedd y rhan fwyfa o'r ffotograffau ro'n i'n eu gweld o Eryri â rhai ffotograffwyr eraill a fy rhai i fy hun â yn lluniau tlws iawn, ac yn ddramatig, ond doedd ynddyn nhw ddim cofnod o'r ffaith fod Eryri yn ardal fyw, yn gartref ac yn weithle i filoedd o bobol," meddai Richard, sy'n byw yng Nghaernarfon.

"Ro'n i isio gwneud iawn am hynny, ac mi ddechreuais feddlw sut y gallwn i greu priodas rhwng y dirlun a'r bobol."

Aethpwyd ati i drafod gyda nifer o awduron a beirdd sydd â chysylltiadau gyda'r ardal a chydweithio i gyflwyno ochr arall i'r ardal y mae trigolion wedi arfer ei weld. Mae 'Enaid Eryri' yn ffrwyth llafur yr ymdrech ar y cyd



Cyfrol newydd 'Enaid Eryri'

yma, ac yn cynnwys gwaith gan ddau o lenorion amlycaf Dyffryn Ogwen yn Ieuan Wyn a Manon Steffan Ros.

Mae'r gyfrol yn cyfuno delweddau o Sling a Llanllechid gyda geiriau Ieuan Wyn yn ogystal â phlethu gwaith Manon Steffan Ros gyda lluniau o bentref ei magwraeth, Rhiwlas.

Ychwanegodd Richard: "Dwi'n teimlo mor freintiedig fod yr holl feirdd ac awduron yma wedi cyfrannu at y gyfrol. Mae'r broses o baratoi'r ffotograffau ar eu cyfer a darllen y darnau gorffenedig wedi bod yn un y gwna i ei thrysori am byth."

Mae 'Enaid Eryri' a gyhoeddwyd gan Wasg Carreg Gwalch ar gael yn y siopau.

Bethesda

Mary Jones, maryeds@
hotmail.co.uk
☎ 07443 047642

Joe Hughes, Awel y Nant,
Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ 601902

Yr Eglwys Unedig

Cydymdeimlad

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, daeth profedigaethau i ran amryw o'n haelodau. Bu farw'r Parchedig John Owen, gŵr Elina, wedi blynyddoedd o gystudd milain. Cynhaliwyd yr angladd yng nghapel Jerusalem, lle bu Mr Owen yn weinidog ymroddedig am nifer fawr o flynyddoedd. Collodd Menai a Walter chwaer a chwaer yng nghyfraith, a chollodd Dennis a Ceri frawd a brawd yng nghyfraith. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf atoch, a'ch teuluoedd.

Dymuniadau

Anfonwn ein cofion gorau at y rhai sydd yn dioddef o anhwylderau ar hyn o bryd: Mrs Mair Jones, Mrs Carys Williams, Mrs Medi Williams, a Mrs Glenys Lloyd Jones. 'Rydym yn gweld eich colli yn yr oedfaon, ac yn taer obeithio y daw gwellhad buan i chwi i gyd.

Bore Coffi

Cynhaliwyd bore coffi

llwyddiannus dros ben yn y festri yn ystod mis Tachwedd, er budd elusen Dementia. Gwnaethpwyd elw o £610, ac mae'n diolch yn fawr i Carys Parry am drefnu'r cwbl.

Y Nadolig

Mae gweithgareddau'r Nadolig yn agosáu, a golyga hyn fod bwrlwm mawr ar y Suliau, gyda'r paratoadau ar gyfer gwasanaeth y plant, a'r gwasanaeth cymunedol. Ein gobaith yw y bydd pawb ohonom, yn blant ac oedolion, yng nghanol miri'r siopa a'r gwledda, yn gallu oedi am ychydig i fyfrio dros wir ystyr yr Ŵyl. Cynhelir oedfa Gymun am 9.30 ar fore'r Nadolig – croeso cynnes iawn i bawb, a dymunwn dangnefedd yr Ŵyl a Blwyddyn Newydd Dda i bob un ohonoch.

Cyhoeddiadau'r Sul:

22 Rhagfyr: Mr Richard Morris Jones (10 a 5)
29 Rhagfyr: Y Parchedig Iwan Llewelyn Jones (10)
5 Ionawr: Y Parchedig John Owen, Rhuthun (10)
Y Parchedig Eric Jones (5)
12 Ionawr: Trefniant Mewnol (10)
Gwasanaeth Plygain (6.30)
19 Ionawr: Y Parchedig Anna Jane Evans (10 a 5)

Diolch

JONES Alan Wyn. Hoffai Jessie a'r teulu ddiolch i berthnasau, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd a'u haelioni yn dilyn



Yn ddiweddar cyflwynwyd sic am £1,700 i Gyfeillion Ysbyty Gwynedd i dalu am ddwy gadair arbennig i ward Asesu Gogarth er cof am Meuryn Puw.

colled drist Alan. Hoffem ddiolch i chi i gyd am y rhoddion hael tuag at Cŵn Tywys i'r Deillion & Mind. Rydym yn falch o gadarnhau bod £1,100 wedi'i gasglu i'w ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau Mind lleol, ac i noddi ci bach o'r enw Hope er cof am Alan.

Efeilliaid

Llongyfarchiadau i Amy ac Omid Behi o Res Gordon, Bethesda ar enedigaeth diweddar Anís a Roshan. Dau frawd bach newydd i Idris. Pob hwyl ar y magu!

Llongyfarchiadau

I Jamie a Kirsten Williams ar eu priodas yn ddiweddar. Mae'r teulu bach, gyda'u merch fach Belle, wedi setlo'n hapus iawn yn eu cartref yn 17 Glanffrydlas. Dymuniadau gorau i'r teulu.

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Ar ddydd Gwener, 29 Tachwedd, bu'r aelodau yn brysyr yn casglu arian yn siop y Co-op, Llanfairfechan. Diolch am y croeso gan staff y siop ac i Mrs. Helen Pritchard am drefnu.

Yna, ar brynhawn Sul, 1 Rhagfyr, 'roedd y Cyfeillion wedi trefnu eu Gwasanaeth Nadolig yng Nghapel Carmel, Llanllechid.

Yn dilyn gair o groeso gan gadeirydd y Cyfeillion, Joe Hughes, offrymwyd gweddi gan weinidog yr eglwys, y Parchedig D. John Pritchard. Yna, i agor y gwasanaeth, cafwyd darlenniad a deuawd gan Glwb Dwylo Prysur y Capel. Cyflwynwyd nifer amrywiol o ddarlleniadau addas yn ystod y gwasanaeth gan Dr Catrin Elis-Williams, (Is-lywydd),



Roedd lluniaeth arbennig i nodi'r hanner cant

Plas Ogwen yn dathlu'r hanner cant

Fe gafwyd prynhawn o ddathlu a mwynhau arbennig yng nghartref preswyl Plas Ogwen yn ddiweddar.

I nodi hanner canrif ers agoriad y cartref ar 28ain o Dachwedd 1969, fe gafwyd parti hwyliog i nodi'r achlysur. Rhoddwyd wahoddiad i gyn-aelodau staff sydd wedi gwasanaethu ym Mhlas Ogwen i ymuno gyda'r preswylwyr a staff presennol y cartref.

Cafwyd danteithion di-ri i ddathlu'r hanner cant, ac i ddiddanu'r dyrfa oedd wedi ymgynnull roedd Dafydd Iwan yn canu rhai o'i ganeuon poblogaidd. Roedd pawb yn amlwg wedi mwynhau!



Rhai o gynghorwyr y cylch ynghyd â staff gofal y cartref a Chyngor Gwynedd yn mwynhau'r dathlu



Dafydd Iwan yn diddanu'r preswylwyr



Gwasanaeth Nadolig Cyfeillion Ysbyty Gwynedd yng Nghapel Carmel

Iona Jones (Is-gadeirydd), Ffion Rowlinson (Merched y Wawr, Tregarth), Alaw Griffith (Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen), Dewi Morgan (Trysorydd), Mrs Gwenan Davies Jones (Ysgol Llanllechid) a'r Cynghorydd Einir Williams (Cadeirydd Cyngor Cymuned Bethesda). Cafwyd cyfraniad arbennig gan ddisgyblion Ysgol Llanllechid dan arweiniad Mrs Delyth Humphreys, gyda Mrs Helen Wyn Williams wrth yr organ. Diolchwyd i bawb gan Iona Jones a chyhoeddwyd y fendith gan y Parchedig Cassie Jones, gweinidog Capel Emaus, Bangor.

Wedi'r gwasanaeth, croesawyd pawb i'r festri i fwynhau lluniaeth ysgafn, wedi ei baratoi gan aelodau'r pwyllgor. Diolch yn fawr am y casgliad ardderchog o £470 tuag at waith y Cyfeillion.

Y Llyfrgell
Mae Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen, Bethesda ar gau dros gyfnod y Nadolig o 25 hyd 29 Rhagfyr. Bydd ar agor 30-31

Rhagfyr ac o 2 Ionawr 2020 ymlaen.

Hoffai'r Llyfrgell ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl defnyddwyr a diolch am eu cefnogaeth dros y flwyddyn.

Babi Newydd
Llongyfarchiadau i Hafwen a Gethin, Ffordd Bangor, ar enedigaeth eu hail ferch, Buddug, ar 26 Tachwedd. Chwaer fach i Enfys.

Cydymdeimlo
Bu sawl teulu mewn profedigaeth yn ddiweddar, ac anfonwn ein cydymdeimlad atynt:

Mr. a Mrs. Walter Williams, Erw Las, a'r teulu. Collodd Menai ei chwaer, Mrs Ann Pritchard, Llanberis, ar 16 Tachwedd.

Mr a Mrs Dennis Dart, Rhos y Nant, a'r teulu. Collodd Dennis ei frawd, Mr Ken Dart, ar 25 Tachwedd.

Mr a Mrs Derek Griffiths a'r teulu, Abercaseg, a Mr a Mrs, James Rowlands a'r teulu, Abercaseg. Norma ac Edwina wedi colli eu nai, Wayne, yn Amlwch.

Ysbyty
Cofion a gwellhad buan i sawl un a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Dyma'r rhai a ddaeth i sylw'r Llais: Mrs Medi Williams, Stâd Coetmor; Mrs Mair Jones, Ffordd Bangor; Lliwen Hughes, Llain Deg; Mrs Margaret R. Williams, Rhos y Coed.

Gorffwysfan
Ar ddydd Mercher, 20 Tachwedd, aeth dros 40 o aelodau a chyfeillion ar wibdaith i farchnad Bury. Cafwyd diwrnod sych a braf - ond oer! Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn.

Mae'r aelodau yn anfon eu cydymdeimlad at Dennis a Ceri yn eu profedigaeth ddiweddar. Maent hefyd yn anfon cyfarchion y tymor i'r holl aelodau.

Eglwys Crist, Glanogwen
Gwasanaethau
Pob Bore Sul: Cymun Bendigaid Corawl am 11yb.
Pob bore Mercher:
Gwasanaeth Cymun byr am 10.30yb, ac i ddilyn, paned a sgwrs hwyliog.

Gwasanaethau'r Nadolig
Bore Sul, 8 Rhagfyr:
Gwasanaeth Carolau Adfent am 11yb.
Bore Sul, 22 Rhagfyr:
Gwasanaeth 9 Llith a Charol am 11yb.
Dydd Mawrth, 24 Rhagfyr, Noswyl Nadolig:
Am 4 o'r gloch y prynhawn: Wrth y Preseb - gwasanaeth (byr) i blant o bob oed
Am 7.30 yr hwyr: Cymun bendigaid i groesawu'r Nadolig
Croeso cynnes i bawb i'r holl wasanaethau.

Anfonwn ein cofion fel arfer at bawb sydd yn wael neu yn gaeth i'w cartrefi. Cofiwch gysylltu os am gael Cymun Cartref.

**Nadolig Llawen
a Blwyddyn
Newydd
Dda i bawb!**

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst



gan Guto Jones

Roedd Tachwedd yn fis prysur iawn i mi yn Nyffryn Ogwen, wrth i mi fynd ar daith o amgylch mudiadau'r ardal er mwyn dangos eu gwefan newydd iddynt - **Ogwen360**. Er nad wyf yn byw ym mhell o Ddyffryn Ogwen (hogyn o Ddyffryn Nantlle 'dwi), nid oeddwn yn gyfarwydd iawn â'r ardal, felly 'roedd y daith yma'n gyfle cyffrous i mi ddod i 'nabod y lle'n well.

Cychwynnais fy nhaith wrth ymweld ag Alwyn Lloyd Ellis, cadeirydd Sioe Dyffryn Ogwen, er mwyn ei holi am yr holl waith caled sy'n rhan o gynnal sioe leol. Dyma un o brif fanteision gwefan fel **Ogwen360** - rhoi sylw i fudiadau lleol, sy'n

haeddu pob canmoliaeth.

Yn aml, mae'r cyfryngau cenedlaethol yn methu rhoi sylw i fudiadau a digwyddiadau o'r fath, er eu bod yn ei haeddu am yr holl waith caled. Cymerwch olwg ar beth sy'n mynd 'mlaen y tu ôl i'r llenni yn Sioe Dyffryn Ogwen wrth ymweld â gwefan **www.ogwen360.cymru**

Bu sawl mudiad lleol arall yn rhan o'r daith hefyd, gan gynnwys clwb y Ffermwyr Ifanc, Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen, a'r clwb camera. Wrth ymweld â'r mudiadau yma, cefais flas ar hanes y Dyffryn, yn ogystal a gweld sawl llun hardd o'r ardal. Mae aelodau o'r mudiadau yma bellach wedi ymuno â **Ogwen360** er mwyn creu cynnwys ar y wefan, ac mae croeso i chi wneud hefyd! Yr oll sydd rhaid ei wneud ydi ymuno ar y wefan.

Cefais fy niddanu wrth ymweld â Chôr y Penrhyn, ac Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Crëwyd

cynnwys amrywiol gan y mudiadau yma, wrth i'r Côr ychwanegu fideo yn eu darn sy'n hysbysebu cyngerdd yn Venue Cymru, ac wrth i ddau drac sain cael ei greu ar gyfer y darn am yr Eisteddfod. Mae'n dangos yr amrywiaeth o gynnwys gellir ei gael ar y wefan, ac sydd hefyd yn rhoi'r cyfle i bobol wrando n'ôl ar y cystadlu gwyh fu yn Neuadd Ogwen ar nos Wener y 'Steddfod.

Er bod fy nhaith cychwynnol o gwmpas Dyffryn Ogwen ar ben, dyw'r cyfle i ni ymweld gyda'ch mudiad neu ysgol chi ddim! Os ydych am i Bro360 ymweld â chi yn y flwyddyn newydd, neu am fwy o wybodaeth ar sut i greu cynnwys ar gyfer eich gwefan newydd, cysylltwch â mi drw ebostio **gutojones@golwg.com**.

Byddwn hefyd yn cynnal sesiwn yn Neuadd Ogwen am 7.30pm ar 8 Ionawr. Croeso i unrhyw un alw mewn am sgwrs!

Y Gerlan

Heledd Selwyn, 2 Pen Clwt, Gerlan LL57 3TJ
☎ 01248 208254 07880 702640
heleddselwyn@hotmail.com

Cydymdeimlad
Estynnwn ein cydymdeimlad i Mrs Elina Owen, Cilfodan wedi iddi golli ei gŵr, Y Parchedig John Owen yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn hefyd efo Garmon, Einir a Mererid a'u teuluoedd wrth golli tad a thaid annwyl.

Bu Mr Owen yn weinidog yng Nghapel y Gerlan am flynyddoedd ac roedd yn ymddiriedolwr ar bwyllgor Caban y Gerlan. Bydd bwlch mawr ar ei ôl.

Ar y teledu
Roedd yn dda gweld Noam Davey, Stryd y Ffynnon gynt ar S4C yn ddiweddar. Fe wynebodd her ar Tŷ Am Ddim lle bu iddo brynu, addasu a gwerthu tŷ yng Nghasnewydd. Roedd yn raglen ddifyr iawn.

Taith Taiwan
Cafodd 9Bach daith lwyddiannus yn ddiweddar iawn. Treuliodd y band wythnos yn Taiwan, lle roeddynt yn chwarae mewn Gŵyl yn Tainan. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiadau newydd, yn enwedig blasu'r bwyd stryd traddodiadol.

Trefniadau 'Dolig

Mae cyfnod y Nadolig yn gallu bod yn amser pan mae mwy o wastraff nag arfer yn hel o gwmpas y tŷ. Felly cofiwch y bydd y ganolfan ailgylchu y Cyngor ar Stad Ddiwydiannol Llandygai ar agor yn hirach nag arfer dros gyfnod y gwyliau.

Wedi gwyliau ar Ddydd Nadolig a Gwyl San Steffan, bydd y ganolfan ar agor am amser estynedig o 27 tan 31 Rhagfyr, o 8.30am tan 4.30pm. Cyfle perffaith i glirio rywfaint a chael mymryn o awyr iach!

Bydd y ganolfan ar gau ar 1 Ionawr, ac yna o'r 2il bydd oriau agor arferol.

O ran trefniadau casglu gwastraff, ni fydd casgliadau ar ddydd Nadolig na Gwyl San Steffan. Bydd casgliadau sbwriel i'r cartrefi

fydd wedi methu ar ddiwrnod Nadolig yn cael eu cynnal ar ddydd Sadwrn, 28 Rhagfyr. I'r rheini fydd yn methu casgliad ar 26ain o Ragfyr, bydd y Cyngor yn casglu sbwriel ar ddydd Sul, 29 Rhagfyr. Bydd casgliadau ailgylchu a gwastraff bwyd llawn i'r cartrefi yma yr wythnos ganlynol ar ddydd Mercher, 1 Ionawr a dydd Iau, 2 Ionawr 2020.

Cofiwch y gallwch wirio eich diwrnod casgliad ar wefan Cyngor Gwynedd. Ewch i www.gwynedd.llyw.cymru/ailgylchu a chlicio 'Pryd mae gwastraff yn cael ei gasglu'.



Bu grŵp 9Bach ar daith yn Taiwan yn ddiweddar

Dyma ddymuno Nadolig Llawen iawn i chi gyd - mwynhewch y dathliadau!!

Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn meysydd awyr Cludiant Preifat a Bws Mini

01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

Newyddion o Bartneriaeth Ogwen



Carwen y Car Cynladwy

Gyda Carwen bellach wedi setlo yn ei chartref newydd ger y llyfrgell ym Methesda mae'r gwaith yn mynd rhagddo o hyrwyddo defnydd y car trydan.

Mae'n bartneriaeth 12 mis ar y cyd gydag Arloesi Gwynedd Wledig a ariennir o gynllun ariannu Ewropeaidd 'Leader'. Yn ogystal a hyrwyddo defnyddio'r cerbyd trydan gwyrdd cynaliadwy, rydym yn awyddus iawn i ddenu gwirfoddolwyr ar gyfer cludo unigolion o'n cymunedau i wahanol ddigwyddiadau ac apwyntiadau. Y cwbl sydd angen yw trwydded yrru lan a'r awydd i gynorthwyo eraill.

Dywedodd Meleri Davies, Prif Swyddog Partneriaeth Ogwen: "Dyma gyfle gwych i bobl sy'n awyddus i ennill profiad newydd tra'n cynorthwyo unigolion mewn angen.

"Os oes gennych ychydig oriau i'w sbario dewch atom er mwyn i ni gludo pobl leol i apwyntiadau, digwyddiadau cymdeithasol, neu mynd am dro o gwmpas ein bro bendigedig. Be' well na panad wrth edrych allan ar ogoniant Eryri mewn car sy'n diogelu'r amgylchedd?"

Am fwy o fanylion ar sut i wirfoddoli neu llogi'r car trydan cysylltwch a swyddfa Partneriaeth Ogwen ar 01248 602131 neu ebostio huw@ogwen.org

Dyffryn Gwyrdd

Dros y mis diwethaf, rydym wedi bod yn brysur yn croesawu dwsinau o ymwelwyr i hwb y Dyffryn Gwyrdd yn 27 Stryd Fawr Bethesda.

Mae nifer o unigolion a disgyblion ysgolion lleol yn ogystal a chynrychiolwyr o gyrff yn cynnwys Cyngor Gwynedd, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Llywodraeth Cymru ac Adra wedi bod dod i ddysgu am ein gwaith i warchod yr amgylchedd. Mae gennym hefyd sawl cynllun ar y gweill i ddatblygu'r economi leol, gwella iechyd y fro a thaclo effaith tlodi. Galwch draw

am banad a sgwrs, mae croeso cynnes acw!

M-Sparc

Mae'r berthynas gyda'r parc gwyddoniaeth sydd wedi sefydlu 'Gofod Creu' yn hwb y Dyffryn Gwyrdd yn mynd o nerth i nerth.

Mae Sofie a'r criw efo ni am ddeufis arall, felly dewch draw gynted a bo'r modd i ddysgu am, a defnyddio'r offer technolegol ddiweddaraf yn rhad ac am ddim - pob dim o argraffydd 3D i beiriant argraffu lluniau, yn ogystal a chyngor am ddim ar ddatblygu'ch sgiliau.

Calendr Adfent a'r Banc Bwyd

Gyda thymor y Nadolig ar y gweill, mae Partneriaeth Ogwen yn cyd-weithio gyda Banc Bwyd Arfon i gasglu bwydydd ar gyfer trigolion y fro. Mae'n gysyniad syml iawn - mae drysau'r Bartneriaeth a'r Dyffryn Gwyrdd ar agor i bobl leol gyfrannu bwydydd i'w rhannu'n lleol. Tasa pawb yn dod ag un eitem pob diwrnod, dychmygwch sut y gallem helpu'r anghenus dros gyfnod yr Wyl.

Am fwy o fanylion ar sut i gyfrannu cysylltwch â swyddfa Partneriaeth Ogwen ar 01248 602131 neu ebostio huw@ogwen.org

Enwebiadau am wobrau cenedlaethol

Yn ystod y mis diwethaf mae Partneriaeth Ogwen wedi'i enwebu ar gyfer dwy wobwr genedlaethol am ein gwaith i hyrwyddo datblygiadau'n bro ac ynni cynaliadwy. Mae pawb acw'n croesi bob dim ac yn gobeithio y bydd Sion Corn yn dod yn fuan i'r Dyffryn! Mwy o fanylion i ddilyn yn rhifyn nesaf y Llais.

Gwefan Ogwen.Cymru

Mae busnesau'r ardal yn harneisio pŵer technoleg i hyrwyddo eu hunain a'r dref. Bydd cynllun WiFi cymunedol - sy'n gweithredu ar hyd Stryd Fawr Bethesda - yn

caniatáu i bobl leol a thwristiaid fynd ar-lein am ddim.

Mae'r WiFi yn cysylltu efo **Ogwen.Cymru**, gwefan newydd sy'n hyrwyddo busnesau, sefydliadau, digwyddiadau, a phethau sydd i'w gwneud yn Nyffryn Ogwen. Os oes gennych ddiddordeb mewn ysgrifennu neu ffotograffiaeth, mae'r wefan yn chwilio am gyfranwyr.

Mae'r prosiect wedi'i sefydlu mewn partneriaeth gyda fforwm busnes Bethesda. Ariannwyd y gosodiad WiFi gan brosiect Gwynedd Ddigidol Cyngor Gwynedd ac mae'n rhan o rwydwaith cynlluniau WiFi cymunedol ledled y sir.

Yn ogystal â'r gefnogaeth grant gan Gyngor Gwynedd, mae Partneriaeth Ogwen wedi buddsoddi amser ac arian i greu swydd Swyddog Marchnata Lleol o fewn y cwmni. Maent hefyd wedi sicrhau nawdd gan gwmni adeiladu CL Jones, Cyngor Cymuned Bethesda, Zipworld, a Llechi Cymru.

Dywedodd Tom Simone, sy'n arwain y prosiect ar ran y Bartneriaeth: "Mae Bethesda yn lle anhygoel; ar gyrion Eryri, ac mae llwyth o bethau i'w gweld a'u gwneud yma. Mae'n gyffrous iawn cael cymaint o fusnesau lleol yn dod at ei gilydd i gefnogi'r prosiect hwn - a'i gilydd - i hyrwyddo Bethesda a'r cyfan sydd gennym i'w gynnig."

Meddai Mark Gray, perchennog y busnes bwyd môr Pysgod Ar lein: "Mae technoleg yn rhan hynod bwysig o'n busnes. Rydym yn llwyr gefnogi'r fenter newydd hon ac yn credu ei bod yn hwb mawr i'r ardal leol."

Am fwy o wybodaeth am wefan Ogwen. Cymru a'r datblygiadau diweddaraf, cysylltwch gyda Tom Simone ar ebost: tom@ogwen.org neu ffonio 01248 602 131.



Mae Tom Simone yn arwain ar brosiect Ogwen. Cymru ar ran y Bartneriaeth

Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

Camp Caer Mynydd

Rydym wedi cael sawl darlith yn y neuadd a chynulleidfda dda bob tro. Camp Caermynydd oedd testun y ddarlith ddiweddaraf gan Richard Ninnes, Bronnydd, a daeth ef a’r teulu i fyw yno tua ugain mlynedd yn ôl. Mae eu carttref yn agos iawn i Camp ac fe aeth ati i ymchwilio i hanes y lle. I mi a fy nghyfoedion lle i chwarae ydoedd. Fe fydd llawer ohonom â llu o atgofion am Camp, mynd yno i chwarae, cael picnic, trochi’n traed yn yr afon, doedd dim sôn amser hynny am iechyd a diogelwch. Dwi’n cofio hefyd gweld rhai’n chwarae tennis ar sylfaen concrid y cytiau a fu yno ers amser yr Ail Ryfel Byd.

Yn ystod y rhyfel daeth Glyn Rhonwy, Llanberis yn le pwysig, fe storiwyd bomiau ffrwydrol iawn yno. Dewiswyd y lle am ei fod yn hygyrch drwy’r ffordd a’r rheilffordd. Yn ei dro daeth Caermynydd hefyd yn le pwysig i storio bomiau a ffrwydron. Dangosodd Richard nifer o fapiau i ni ac roedd yn amlwg fod y lle yn gangen brysur a phwysig o Glyn Rhonwy. Nifer fechan o bentrefwyr Rhiwlas a fu’n gweithio yn Chwael Dinorwig ac roeddent yn cael cerdded drwy Camp cyn belled a fod ganddynt drwydded i wneud hynny. Roedd pobl leol yn gweithio yno hefyd. Diolch i Richard am ei ddarlith ac am rannu ei wybodaeth a’i ymchwil â ni ac roedd pawb o’r farn ein bod wedi cael darlith werth chweil arall.

Merched y Wawr

Yng nghyfarfod mis Tachwedd daeth Anwen Thomas atom i sôn am ei gwaith. Mae Anwen yn enedigol o Rhydygroes ond nawr yn byw yng Nghaernarfon. Bu ei mam, y ddiweddar Averill Thomas yn aelod ffyddlon o Gangen Rhiwlas am flynyddoedd.

Wedi gweithio fel nyrs ym maes salwch meddwl fe benderfynodd newid gyrfa ac astudio Adweitheg ac nid ar chwarae bach y mae cymhwyso yn y maes yma. Siaradodd am ei gwaith a dangos i ni sut mae rhannau o’r traed yn cyfateb â rhannau o’r corff a gall helpu sawl anhwylder. Gwen a aeth i’r gadair a theimlodd wedi ymlacio’n braf wedi’r driniaeth. Bellach mae wedi dechrau busnes yn Stryd y Plas yng Nghaernarfon a rhoddodd daleb i fynd yno ac Annes oedd yr un lwcus.

Mari oedd llywydd y noson a Linda ac Annes wnaeth y baned.

Llongyfarchiadau

Y mae Dilys Parry, Bryn Tirion wedi dod yn hen nain am y tro cyntaf. Cafodd Irfon, ei hwyr a’i gymar Helen fachgen bach, Elgan. Llongyfarchiadau i Nia a Raymond ar ddod yn nain a thaid hefyd. Pob dymuniad da i chi fel teulu.

Yn yr un modd llongyfarchiadau i Olwen a Peter Williams, Caeau Gleision ar ddod yn nain a thaid unwaith eto. Y mae Huw a Katie wedi cael merch fach, Ellie May, chwaer fach i Zac. Ein dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Clwb Rhiwen

13 Tachwedd – Fe aethom am dro i Fron Goch a dotio at yr addurniadau Nadolig. Cawsom baned a theisen a ph’nawn difyr.

27 Tachwedd - Cawsom brynhawn buddiol iawn yng nghwmni Kyle, cynrychiolydd o fanc Nat-West. Daeth atom i sôn am y ffyrdd y mae’n bosibl i ni gael ein twyllo, galwadau ffôn, llythyrau drwy’r post, ar stepan y drws ac ar-lein. Trafododd y ffyrdd yma gyda ni ac

roedd gennym sawl cwestion iddo. Diolch i Beryl am drefnu’r ymweliad.

Brysiwch wella

Bu Cadi Iolen, Cae Glas yn yr ysbyty yn ddiweddar ac rydym yn falch o glywed dy fod yn gwella. Mae sawl un o’r pentref heb fod yn dda ac anfonwn ein cofion atoch.

Calendrau

Mae’r calendrau’n gwerthu’n dda ac os am gael un dewch i gysylltiad, mae rhai ar gael.

Rhag-Hysbyseb

Yn y neuadd 25 Ionawr cynhelir Bingo Santes Dwynwen. Cofiwch y dyddiad.

Noson Garolau

Roedd pwyllgor y neuadd wedi trefnu noson o garolau a braf oedd gweld cynifer wedi troi allan er gwaethaf y tywydd. Roedd y neuadd wedi ei haddurno ac roedd awyrgylch Nadoligaidd yno. Diolch i bawb a gymerodd ran, cafwyd eitemau gan blant Ysgol Rhiwlas wedi eu hyfforddi gan Jonathan Davies a diolch i’r prifathro, Iwan Davies ac aelodau o staff yr ysgol am eu presenoldeb. Cafwyd eitemau hefyd gan Cian Iolen, Eirwen Williams, Nia K Roberts, a diolch i Sharon am gyfeilio. Yn rhan olaf y noson roeddem yn canu carolau gyda Seindorf Arian Deiniolen o dan arweiniad Lois Eifion. Cynrig oedd yn arwain y noson ac yn rhoi cefndir y carolau i ni. Diolch i’r rhai a gefnogodd y noson ac i aelodau’r pwyllgor am baratoi y lluniaeth ac am wneud y Neuadd mor ddeniadol.

Gareth Williams

Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS

STEPHEN JONES

TREFNWR

ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebostr: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd

Dda i bawb!



Manylion Cyswllt
Cynghorwyr Sir
Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafydddown@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinaltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

@CynghorwyrDyffrynOgwen @PlaidCymruOgwen

YSGOL RHIWLAS

Noson Sinema

Diolch i'r Ffrindiau am drefnu noson sinema lwyddiannus unwaith eto yn yr ysgol. Mae'r Ffrindiau yn brysur yn casglu arian i'r ysgol gan gynnal digwyddiadau i'r plant drwy'r flwyddyn. Diolch mawr i bawb!

Amgueddfa Lechi

Wrth astudio ein hardal leol yr hanner tymor diwethaf, cafodd y Cyfnod Sylfaen fore fendigedig yn yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis. Dysgodd y plant llawer am ein hanes - roedd y plant wedi dychryn meddwl am deuluoedd yn byw mewn tai bychain heb drydan na' chyfrifiaduron! Diolch i'r holl staff am ein croesawu! Edrychwn ymlaen at ddod yn ôl yn y dyfodol.



Ymweliad diweddar i'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis

Diwrnodau Coch

Rydym wedi bod yn cael diwrnodau coch yn yr ysgol i gefnogi'r hogiau rygbi yng Nghwpan Rygbi'r Byd. Piti na churodd Cymru ond roedd y plant wrth eu boddau yn gwyllo'r gemau, rhagfynegi'r canlyniadau ac yn dysgu am Japan!



Ymweliad diweddar i'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis

Bws Mini

Ers blwyddyn bellach, mae Marie Hodson wedi bod yn gweithio'n galed iawn yn codi arian i'r ysgol i brynu bws mini. Ychydig a wyddwn, gyda'i hymroddiad a'r charedigrwydd rydym yn ddigon ffodus o ddweud bod y bws mini bellach ar dir yr ysgol! Dros y flwyddyn, drwy redeg 'Bonus Ball' a gwahanol rafflau ar ei thudalen Facebook, mae Marie wedi casglu £3,740 felly rydym yn hynod ddiolchgar iddi am ei hamser. Hefyd hoffem ddiolch i Ffrindiau'r ysgol am eu cyfraniad o £500 ac i Gyfeillion Rhiwlas am eu siec o £1,000! Mae Cyfeillion Rhiwlas yn cynnal noson Cwis pob nos Fercher yn y Vaynol ac wedi bod yn brysur yn cynnal prynhawniau te yn y Neuadd Bentref. Diolch o waelod calon am eich cefnogaeth!



Marie Hodson yn rhoi'r goriadau i Mr Davies y pennaeth

gair neu ddau

John Pritchard

Yr Un Hen Stori

Naddo; oes; ac nac ydi. Trafod cyflwyniadau Nadolig y plant yn ein hysgolion oedd y rhaglen radio, a'r cyflwynydd yn holi, 'Ydych chi wedi cael llond bol ar eistedd trwy'r un hen stori? Oes lle i draddodiad y Geni, neu ydi hi'n bryd symud ymlaen?'

Mae gan bob ysgol wrth gwrs ryddid i benderfynu beth fydd cynnwys a ffurf eu gwasanaethau

neu sioeau Nadolig eu hunain. Ond mae'n amlwg y bydd 'yr un hen stori' yn rhan o gyflwyniadau llawer ohonynt. Bydd yn sicr yn ganolog i holl ddathliadau capeli ac eglwysi ein gwlad eleni eto. Ie, 'yr un hen stori'. Pedwar gair bach. Pedwar gair syml. Ond pedwar gair a gaiff eu dweud yn wahanol, a thrwy hynny ddod i olygu rhywbeth gwahanol iawn i wahanol bobl. I rai, maen nhw'n cyfleu diflastod. Bron na fedrwyd glywed y geiriau'n cael eu dweud gydag ebychiad hir o'u blaen: 'Yyyy, yr un hen stori, bob blwyddyn!' Mae'r doethion a'r bugeiliaid wedi colli eu newydd-deb, a'r llety llawn a'r baban mewn preseb mor gyfarwydd nes mynd yn gwbl ddiystyr a di-ramant i'r bobl hyn.

I rai, mae'r geiriau'n cyfleu cynhesrwydd ac yn codi hiraeth am bethau cyfarwydd a fu'n rhan o'u plentynod a'u magwraeth. Mae'n stori glasurol na fedrant fyth flino arni ac yn rhan annatod o ddathliadau'r Nadolig. 'Yr un hen stori', meddant gydag anwyldeb mawr yn eu llais, gan ein sicrhau na fydden nhw'n medru dychmygu Nadolig hebddi. Mae'r seren a'r angylion, y stabl, yr anrhegion a'r plentyn bach lawn mor bwysig i'r Wyl ag yw'r goeden a'r pwddin ac Anerchiad y Frenhines. Ac i eraill, maen nhw'n eiriau pwerus a rhyfeddol ac yn gyforiog o ystyr. Glywch chi'r cyffro yn eu llais wrth iddyn nhw hefyd sôn am 'yr un hen stori'? Wnân nhw ddim blino arni. Fedran nhw ddim gwneud hynny gan eu bod yn

argyhoeddedig mai'r stori hon sy'n cyhoeddi dyfodiad eu Gwaredwr i'r byd. Geni babi bach Bethlehem sy'n dod â gobaith i'r byd ac iddyn nhw. Sut allan nhw flino ar ei chlywed a'i hadrodd? Heb y Geni, ni fyddai na bywyd perffaith na gweinidogaeth drugarog na marwolaeth iawnol nac atgyfodiad buddugoliaethus. A heb y pethau hynny ni fyddai na chymod na bywyd na gobaith i'r un ohonom ninnau. Naddo, dwi ddim wedi cael llond bol. Oes, mae lle i draddodiad y Geni. Ac nac ydi, dyw hi ddim yn bryd symud ymlaen os mai'r hyn a olyga hynny yw bod dyfodiad Iesu Grist i'r byd i'w ystyried bellach yn rhywbeth hen ffasiwn ac amherthnasol a diwerth. Nadolig Llawen a bendithiol i chi.

YSGOL DYFFRYN OGWEN

Adroddiad Estyn

Mae Ysgol Dyffryn Ogwen yn croesawu adroddiad a gyhoeddwyd gan Estyn yn dilyn arolygiad ym mis Medi. Mae'r adroddiad yn nodi fod yr ysgol yn gymuned glos a gofalgar lle mae'r staff yn adnabod y disgyblion yn dda iawn ac yn cynnal perthynas gefnogol iawn gyda hwy. Sylwodd yr arolygwyr hefyd fod y disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i gyfrannu i fywyd y gymdeithas yn ehangach. Mae'r adroddiad yn cadarnhau barn y Pennaeth a'r Llywodraethwyr fod safonau'r ysgol angen gwella.

Mae'r Llywodraethwyr yn ymfalchïo fod Estyn wedi sylwi ar y pwysigrwydd mae'r ysgol yn ei roi ar ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu i fywyd yr ysgol a'r gymuned. Da yw gweld hefyd fod Estyn yn cydnabod bod y penderfyniad i ail strwythuro'r Uwch Dim Arwain ddiwedd 2018, ar gais y Pennaeth, wedi arwain at sefyllfa gadarnach, strwythurau mwy grymus a gafael gadarnach ar flaenoriaethau'r ysgol. Mae hynny wedi sicrhau newidiadau wedi digwydd yn barod er mwyn sicrhau fod safonau yn gwella. Bydd yr ysgol yn gyrru'r gwelliannau parhaus yr ydym i gyd am eu gweld er mwyn sicrhau fod Ysgol Dyffryn Ogwen yn cynnig yr addysg orau i ddisgyblion ein bro.

Cadarnhaodd Estyn fod gan ein tîm arwain newydd weledigaeth glir sy'n adlewyrchu'r gymuned naturiol Gymreig y mae'r ysgol yn rhan ohoni ac yn rhoi pwyslais ar ddatblygu dwyieithrwydd disgyblion. Rydym yn croesawu hefyd fod yr adroddiad yn cydnabod bod gan staff yr ysgol ddealltwriaeth glir o'r meysydd sydd angen eu datblygu a'n bod eisoes wedi llwyddo i osod prosesau clir yn eu lle i fonitro cynnydd. Mae'r adroddiad yn sicrhau cynnig rhaglen glir i staff, llywodraethwyr a chymuned gyfan i weithio i sicrhau fod yr ysgol yn cynnig yr addysg orau i ddisgyblion Dyffryn Ogwen.

Fforwm Rhieni a Chyfeillion

Wedi sawl cais i atgyfodi cymdeithas cyfeillion yr ysgol rydym wedi anfon gwahoddiadau i rieni ac wedi cael ymateb cadarnhaol iawn. Gwnaed penderfyniad i enwi'r grŵp yn Fforwm Rhieni a Chyfeillion Ysgol Dyffryn Ogwen. Bydd pob math o faterion ar agenda'r fforwm gan gynnwys syniadau codi arian ond hefyd yn rhoi ystyriaeth i'r hyn sydd yn digwydd ar lawr y dosbarth. Croeso i gyfeillion o'r gymuned ymuno yn ogystal â chyflogwyr lleol - bydd gan y gymuned rôl flaenllaw yn y broses o lunio ein cwricwlwm lleol yn y blynyddoedd i ddod. Cysylltwch efo'r ysgol os oes gennych awydd cyfranogi.

Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Llongyfarchiadau i holl ddisgyblion yr ysgol

fu'n cymryd rhan yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Llongyfarchiadau yn arbennig i Beca Nia a enillodd Dlws yr Ifanc. Cipiwyd y wobr gyntaf am yr unawd offerynnol gan Gwydion Rhys ar y piano. Yn y gystadleuaeth Rhaglen o Adloniant daeth côr cymysg yr ysgol yn ail.

Diolch hefyd i'r disgyblion fu'n rhan o'r orsedd yn y prif seremoni. Bu nifer o ddisgyblion hefyd yn llwyddiannus yn y cystadlaethau llenyddol eleni, llongyfarchiadau mawr iddyn nhw.

Eleni cafwyd llwyddiannau ymhob cystadleuaeth arlunio gyda Nicola Wheatcroft yn cael cyntaf yn y gystadleuaeth Blwyddyn 7 i 9, Idris Morris yn ail ac Elsie Owen yn drydedd gyda lluniau o fwydydd amrywiol. Ym mlwyddyn 10 ac 11 enillodd Cushla Luxton y wobr gyntaf gyda 'collage' o effaith y ffôn symudol ar fywyd modern gyda Caitlin Watts yn drydedd. Yn y gystadleuaeth ffotograffiaeth cafodd Cerys Thomas gyntaf a Lowri Roberts ail gydag Ella Baker yn curo'r wobr Ysgoloriaeth gyda gwaith argraffu sydd yn adlewyrchu cyfeillgarwch dynol.

Diolch i Mr Andrew Thomas am hyfforddi'r côr, i Adran y Gymraeg am eu gwaith gyda'r orsedd a'r cystadlaethau llên ac i Mrs Julie Jones am ei gwaith efo'r cystadlaethau Celf.



Nicola Wheatcroft, Idris Morris ac Elsie Owen

Cwrs Safon Uwch yng Nglan-llyn

Treuliodd fyfyrwyr blynyddoedd 12 ac 13 dridiau arbennig yng Ngwersyll yr Urdd, Glan-llyn ym mis Tachwedd. Cafwyd tri diwrnod o ddarlithoedd cynhwysfawr ar y testunau a astudir ganddynt. Roedd y cwrs dan ofal darlithwyr Adran y Gymraeg, Prifysgol Bangor, diolch o galon iddyn nhw am dridiau i'w cofio.

Ymweliad Aneirin Karadog

Daeth y Prifardd, Aneirin Karadog i'r ysgol yn ystod y mis a aeth heibio'n ogystal. Treuliodd awr ddifrifus yng nghwmni blwyddyn 11 yn sôn am ei gerdd 'Gweld y Gorwel'. Dyma brofiad gwerthfawr i'r disgyblion wrth iddyn nhw baratoi at eu harholiad barddoniaeth ym mis Mai.

Croesawu Manon Steffan Ros

Hyfryd iawn oedd croesawu cyn-ddisgybl talentog i'r ysgol. Daeth yr awdur llwyddiannus, Manon Steffan Ros atom i weithio gyda rhai o hogiau blynyddoedd 7,8 a 9. Treuliodd yr hogiau fore gwych yn ei chwmni yn trafod ei nofel 'Fi a Joe Allen.' Diolch, Manon!



Y Prif Ienor, Manon Steffan Ros gyda hogiau blynyddoedd 7, 8 a 9

Hyfforddiant Staff

Diolch o galon i Mr Owen Davies am ddod draw i'r ysgol yn ddiweddar i hyfforddi staff ar arloesi gyda TGCh a dangos sut all disgyblion gydweithio a datblygu eu Cymhwysedd Digidol.

Criw Lletygarwch

Bu disgyblion blwyddyn 10 lletygarwch yn ymweld â Gwesty Victoria Llanberis. Cawsant gyfle gwych i ddysgu llawer am iechyd a diogelwch o fewn cegin brysur ynghyd ag arsylwi sgiliau coginio a blasu'r bwyd gorffenedig.



Criw lletygarwch yn ymweld â Gwesty'r Victoria, Llanberis

Wythnos Sgiliau

Fel rhan o wythnos sgiliau bu disgyblion blwyddyn 7 yn aros noson yn Rhyd Ddu ac yn cerdded i fyny'r Aran. Llwyddodd pob disgybl

yn eu hymdrechion i ddangos dyfalbarhad a gwydnwch! Treuliodd blwyddyn 7 weddill yr wythnos yn datrys problemau amrywiol ac yn cydweithio er mwyn dod i adnabod eu gilydd yn well.

Grŵp Llais Elusennau

Yn ystod mis Tachwedd mae'r grŵp LLAIS Elusennau wedi bod yn brysur yn trefnu amryw o weithgareddau. Bu'r disgyblion yn casglu bwyd a dillad ar gyfer y di-gartref, mae'r rhain wedi cael ei roi i St Mary's Hostel Ym Mangor er cof am Karen bach. Llwyddodd y disgyblion i hel 3 llond bag o fwyd a dau lond bag o ddillad.

Plant Mewn Angen

Ar ddiwrnod Plant Mewn Angen roedd pawb mewn gwisg eu hunain gyda themâu o sanau od! Roedd cystadleuaeth coginio cacen gyda'r wobwr gyntaf yn mynd i Hanna Durrant, yr ail wobwr i Nel Williams a'r drydydd i Ella Basinger a Seren Hinchlife. Cynhaliwyd gêm bêl-rwyd yn ystod amser cinio yn erbyn yr athrawon. Cawsom ddiwrnod gwerth chweil a hel dros £400 o bunnoedd.

Pêl-rwyd

Llongyfarchiadau i'r timau pêl-rwyd blwyddyn 7 a blwyddyn 8 yn erbyn Ysgol Friars. Er colli 3-2 (bl 7) a 6-4 (bl 8) roedd Mrs Wallis yn hynod falch o safon wych y chwarae gan bawb.

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

TEMPLE MORRIS A'I Ffôn

Pob Math o Waliau Cerrig, Ffensio, Tarmacio a Thirlunio. Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com



Rhai o griw Blwyddyn 7 fu yn Rhyd Ddu

Pentir

Ffenestri Adfent

Mae criw o ardawyr wedi penderfynu trefnu 'Calendr Adfent Byw' yn y dyddiau sy'n arwain i'r Nadolig. Golyga hyn bod tai yn Rhyd-y-Groes a Phentir wedi cytuno i addurno eu ffenestri, gyda'r ffenestr gyntaf yn cael ei goleuo a'i harddangos ar 1af Rhagfyr. Bydd ffenestr newydd yn ymuno â'r cynllun pob noson, fel yn y diwedd bydd pob ffenestr wedi ei goleuo erbyn noswyl Nadolig. Dewch am dro i weld yr arddangosfa Nadoligaidd a disglair yma!

Symud Cyfandir

Bu'r Ficer, John Goodman Matthews yn trigo yn Ficerdy Pentir am 10 mlynedd ac roedd yn arweinydd Eglwys Bro Ogwen am y 5 mlynedd ddiwethaf. Mae John a'i wraig, Suzanne newydd gyfnewid gaeaf Cymru am haf ynys ogleddol Seland Newydd. Bydd John yn cymryd cyfrifoldeb am ei ofalaeth newydd fel Ficer Havelock North a dymunwn yn dda i'r ddau.

Eglwys St. Cedol, Pentir

Clwb 100 Mis Hydref 2019
1af: Rhif 43 - Ann Illsley, Pentir
2il: Rhif 2 - Kim Roberts, Rhiwlas
3ydd: Rhif 42 - Helen Burbage, Rhiwlas

Clwb 100 Mis Tachwedd 2019

1af: Rhif 45 - Myra Jones, Rhiwlas
2il: Rhif 53 - Gwyn Jones, Llanddeiniolen
3ydd: Rhif 26 - Catherine Roberts, Rhiwlas

Dathliad o'r Nadolig

Nos Sul, 22 Rhagfyr am 6yh bydd noson i ddathlu gwyl y Nadolig, yng nghwmni Sharon Williams ar yr organ, Sioned Roberts ar yr clarinét, Lleisiau'r Foel, ac artistiaid eraill, ynghyd a charolau cynulleidfaol. Bydd lluniaeth ysgafn o fins peis a gwin cynnes. Dewch i gyd-ganu gyda ni - croeso cynnes i bawb.

Ffair Nadolig

Prynhawn Sadwrn, 30 Tachwedd cynhaliwyd ein ffair Nadolig yn y ganolfan Glasinfryn. Roedd yn brynhawn hwyliog a hynod o lwyddiannus. Diolch i bawb am eich cefnogaeth.

Ffair Grefftau

Yn Neuadd Bentref Rhiwlas ar Dydd Sadwrn, 16 Tachwedd cynhaliwyd Ffair Grefftau Nadoligaidd, gydag amrywiaeth o stondinau gan grefftwyr lleol. Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus dros ben, hoffem ddiolch i'r stondinwyr a'r cyhoedd am eu cefnogaeth.

Cyfarchion

Hoffai aelodau'r Eglwys anfon cyfarchion y tymor i'r canlynol - Mrs Mai Williams, Miss Margaret Griffith, Mr Bill Perry, Mr Vic Bradley, a Mrs Beryl Griffith.

Cyfarchion yr Wyl

Hoffai aelodau a chyfeillion Eglwys St. Cedol ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i drigolion Dyffryn Ogwen, a diolch am eich cefnogaeth drwy gydol 2019. Diolch yn fawr.

Gwasanaethau'r Sul

Mae'r Gwasanaethau bob Sul am 9.30yb. Mae croeso cynnes i chwi ymuno â ni:
22.12.19 - Boreol Weddi
22.12.19 - 6yh Dathliad o'r Nadolig
24.12.19 - 9.30yh Cymun Bendigaidd Nadolig
25.12.19 - ymuno â Tregarth 9yb neu Talybont 10.30yb
29.12.19 - 9.30yb Gwasanaeth Plwyf ar y cyd yn Eglwys St. Cedol, Pentir
5.1.20 - Cymun Bendigaidd
12.1.20 - Boreol Weddi
19.1.20 - Cymun Bendigaidd
26.1.20 - Boreol Weddi

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI

Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd Contractau

Contractwyr i Wasanaeth Ambiwylans Gogledd Cymru



JOHN ROBERTS

Paentiwr Papurwr Teilsiw

Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

Sefydlwyd 1969

m.hughes a'i fab

CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.*

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

Londis Bethesda

☎ 01248 605566
**Archfarchnad hwylus
a Swyddfa Bost
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer**
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
**Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos**

YSGOL ABERCASEG

Llwyddiant
Da iawn pawb oedd wedi cymryd rhan yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Bendigedig gweld plant yn trio rhywbeth newydd, yn canu, llefaru, gwneud gwaith creadigol a hefyd cymryd rhan yn y gystadleuaeth llawysgrifen.



Llwyddiant yn yr Eisteddfod

Cynllun Gwen
Mae'r ysgol wedi cael eu gwobrwy am fod yn rhan o Gynllun Gwen ers dros 10 mlynedd. Da iawn pawb yn Ysgol Abercaseg am gael dannedd glan gloyw.

Diolch
Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi casglu caeadau a photiau Llaeth y Llan i'r ysgol, mae'r ysgol yn rhan o'r gystadleuaeth ar gyfer gweddill y flwyddyn. Croesi bysedd am newyddion da. Diolch hefyd i bawb a gasglodd sticeri Aldi. Gobeithio am newyddion da cyn y Nadolig.

Bocs Nadolig
Mae plant Ysgol Abercaseg wedi anfon 31 bocs Nadolig i'r elusen 'Teams 4 You'. Diolch hefyd i griw Ffrindiau'r Byd am ychwanegu dau focs gan yr ysgol. Mi fydd y plant a fydd yn derbyn y bocs yn siŵr o fod yn ddiolchgar iawn.

Ymweliad PC Owain
Cafodd plant blwyddyn 1 a 2 ymweliad gan PC Owain. Roedd PC Owain yn trafod diogelwch ynglŷn â moddion. Gan drafod pa mor bwysig yw cadw moddion allan o afael plant ac o dan glo.

Ffair
Roedd cynnwrf yng Nghlwb Criced Bethesda nos Wener, 22 Tachwedd. Diolch enfawr i'r cyfeillion am yr holl waith trefnu. Diolch hefyd am yr holl gyfraniadau a'r gefnogaeth ar y noson gan y rhieni. Roedd pawb wedi cael noson wych.

Tesco
Ym mis Ionawr mi fydd gan Ysgol Abercaseg focs yn Tesco Bethesda a Tesco Bangor fel rhan o'u cynllun 'Bags for Help'. Felly cofiwch gasglu'r tocynnau glas a choch a'u rhoi ym mocs 'Ffrindiau Fftrwydd Abercaseg'. Mae cyfle i ennill hyd at £2,000 a fydd yn mynd tuag at adnoddau ymarfer corff i'r plant.

Dal i ddod ym mis Rhagfyr...
•Trip Derbyn, blwyddyn 1 a blwyddyn 2 i Reilffordd Llanberis i weld Sion Corn
•Diwrnod siwmperi Nadolig
•Ymweliad blwyddyn 2 i Gapel Jerwsalem
•Cyngerdd Nadolig

Hwyl Fawr a Diolch
Mae'r amser wedi cyrraedd ac mi fydd newid mawr yn Ysgol Abercaseg pan fydd Mrs Lloyd yn ymddeol ddiwedd y tymor hwn. Bydd colled mawr iawn ar ei hol a hoffai'r holl blant a staff ddiolch iddi am bopeth yn o gystal â dymuno'n dda iawn iddi ar ei hymddeoliad. Mwynhewch bob eiliad o'r ymlacio ac wrth gwrs y gwersi golff!

Plant Mewn Angen
Roedd hi'n ddiwrnod lliwgar iawn ar 15 Tachwedd pan gafodd plant Ysgol Abercaseg ddod i'r ysgol yn eu pyjamas er mwyn cefnogi Plant Mewn Angen, £112 wedi casglu tuag at achos da. Da iawn chi!



Plant Mewn Angen

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd dda i chi!



Cofio'r Parch. John Owen

Mab ffarm oedd John Owen. Fe'i ganed yng Nghefn y Groes Fawr, Llansannan yn 1928, yn fab i Henry a Margaret (Harri a Magi i'w cydnabod) – ei dad yn arbenigo mewn trin ceffylau, a'i fam yn ddarlengar, a thrwy hynny'n bennaf, yn hunan-ddiwylliedig. Cafodd John bedair chwaer. Ganwyd Elizabeth o'i flaen, a chafodd ei ddilyn gan Alice, Margaret a Catherine.

Ni pheidiodd John Owen â bod yn fab ffarm gydol ei fywyd. Yr oedd o yn ddelfrydgar, oedd, yn sicr, ond ym mhopath, roedd o yn ymarferol – bob amser â'i draed ar y ddaear. Y mab ffarm ynddo fo a wnaeth iddo fo beidio ag ymddiried y gwaith o godi tŷ – Wernos – i gontractwr, ond yn hytrach ymgymryd â'r gorchwyl o gydlynu gwaith y gwahanol crefftwyr ei hun. Nid anghofiodd mab fferm, o bawb, pa mor bwysig ydyw trin y tir, ac roedd rhoi trefn a chadw trefn ar yr ardd yn fater o bwys defodol dros y pedwar tymor iddo. Ni pheidiodd, chwaith, ag ymhyfrydu yn enwogion ei fro enedigol – Tudur Aled, William Salesbury, Henry Rees, Gwilym Hiraethog ac Iorwerth Glan Aled.

Fel sy'n digwydd yn aml i feibion ffermydd, roedd bod efo'r anifeiliaid a chyflawni amryfal orchwylion amaethu yn llawer mwy deniadol i hogyn cydnerth na mynychu'r ysgol a theimlo caethiwed pedair wal a'u hen ffenestri uchel – yn fwiadol ddi-olygfa. Chwarae triwant oedd hi bob gafael pan fyddai angen dwylo ychwanegol ar y fferm.

A gweithio gartref ar y fferm y bu ar ôl gadael ysgol, yn cynorthwyo'i rieni a chynorthwyo eraill, ac yna, yn 21 oed, er syndod i sawl un ar y pryd, teimlodd dynfa'r comisiwn i wasanaethu fel gweinidog yr efengyl. Ac felly y bu. Cofrestru yng Ngholeg Clwyd yn y Rhyl, cyn mynd i'r Coleg Diwinyddol Unedig yn Aberystwyth. Yn dilyn hynny, aeth ymlaen i Goleg Prifysgol Cymru Caerdydd i astudio'r Gymraeg wrth draed neb llai na Saunders Lewis a Griffith John Williams, profiad a fu'n ddylanwad parhaol o ran ei agweddau at yr iaith a'i diwylliant.

Roedd o wedi cyfarfod ag Elina

yn ystod y cyfnod yn Aberystwyth – Elina Bowen bryd hynny – o ardal Talog, Sir Gaerfyrddin – hyhi'n dilyn cwrs gradd yn y Gymraeg. Priododd y ddau ar Awst 9fed, 1958. Cawsant dri o blant, Mererid, Einir a Garmon, ac er na fu iddyn nhw erioed grybwyll nac awgrymu hynny o gwbl, mi wyddwn ei fod yn achos balchder naturiol iddyn nhw fod y tri fel ei gilydd ar ôl cyfnod eu magu wedi mynd yn eu blaenau i'w cymhwyso ym meysydd iechyd a gofal. Yn fwy diweddar, ymledodd yr ymhyfrydu i fydoedd yr wyrion a'r gorwyrion, a mwynder iddo, fel ag i Elina, oedd dilyn eu hynt.

Fe'i derbyniwyd i weinidogaethu yn Llŷn – gofalaethau Rhydbach a Neigwl yn ardal Botwnnog, Salem yn Sarn Mellteyrn, a Bryn Mawr – a chafodd ei ordeinio yn 1960. Yn Llŷn, rhwng y pedair gofalaeth, mi wnaeth o lawer o gyfeillion da y cadwodd gysylltiad â hwy wedi iddo adael. Roedd hynny'n wir am gyfeillion dyddiau coleg hefyd.

Yna, dod i Ddyffryn Ogwen yn 1966, yn weinidog ar ddwy eglwys, - y fam eglwys yn y Carneddi, a'r Gerlan. Ymgartrefu yn y Fron, Cilfodan, ac ymroi, efô ac Elina, a benodwyd yn athrawes yn Ysgol Dyffryn Ogwen, i fywyd cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol yr ardal a'r tu hwnt. Yn 1972, ychwanegwyd gofalaeth eglwys Jerwsalem gan olynu'r Parch. T.J. Hughes a fu farw yn 1970. Gweithiodd yn ddiflino dros y tair eglwys, ac elwodd nifer dda o gymdeithasau a chyrrff lleol o'i gefnogaeth a'i gyfraniad fel aelod, yn eu mysg cyrff llywodraethol Ysgol Penybryn ac Ysgol Dyffryn Ogwen dros gyfnod sylweddol. Bu'n un o gefnogwyr Caffi Coed y Brenin i roi cyfleoedd i unigolion ag anghenion arbennig, a bu'n weithgar iawn gyda Chartref Bontnewydd am gyfnod pur faith. Roedd yr un mor driw fel aelod o bwyllgor Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen a Chymdeithas Ddiwylliadol Dyffryn Ogwen, ac yn gynheiliad i sylfaenwyr y Caban yn y Gerlan.

Fel bugail y pentref, roedd yn ddoeth ei gyngor ac yn gefn i deuluoedd mewn angen, boed

hwy'n aelodau o'r tair eglwys ai peidio. Rhoddai ei amser a'i sylw yn ddiwahaniaeth. Mae gennym hen air yn ein hiaith – Cyfaill cywir yn yr ing y'i gwelir – ac mi gawsom ni, fel sawl teulu arall yn y gymdogaeth a'r tu hwnt, ei gymorth anhepgor mewn trasiedi. Roedd yn gadarn a didwyll – yn gwbl ddibynadwy.

Cefnogai'r mudiad heddwch a'r mudiad cenedlaethol, a bu ganddo ran ym mrwydr yr iaith. Ymddangosodd o flaen llys yn 1967 am wrthod codi trwydded radio a theledu am nad oedd y dogfennau ar gael yn Gymraeg, ac yn fwy diweddar am wrthod codi trwydded deledu fel gwrthdystiad yn erbyn y defnydd o Saesneg a bratiaith ar S4C a Radio Cymru. Fe'i carcharwyd yn 1980 am ei ran yn yr ymgyrch i gael sianel deledu Gymraeg a hynny am wrthod codi trwydded deledu.

Yn ŵr o argyhoeddiad, a chanddo egwyddorion sylfaenol a lywiai ei fywyd, roedd ganddo farn gadarn ar faterion y dydd ac ar bethau oesol. Yn ddarllenwr mawr, ac yn feddyliwr, defnyddiai'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gawsai o ddarllen y farn academaidd ddiweddaraf ar wahanol faterion i gyfoethogi a grymuso cenadwri ei bregethau. Cawsai flas hefyd yn cyflwyno papurau ar ei ddiddordebau i Glwb y Pentan, a chyhoeddi ambell erthygl mewn cylchgronau.

Bu gofal ei deulu yn fawr drosto. Gofid a blinder oedd gorfod ildio i'r drefn a derbyn mai cam anorfod fyddai mynd i ofal cartref yr henoed. Ac yn eu tro, mawr fu gofal staff Plas Ogwen, Ysbyty

Gwynedd, Ysbyty Eryri, a Chartref Ceris Newydd yn Nhreborth. Chwith i'r eithaf oedd gweld ers tro bellach y cyfyngu dybryd a ddaethai i'w ran o golli'r gallu i ysgrifennu, darllen a llefaru – yr hyn a fu'n graidd mynegiant ei bersonoliaeth a'i waith a'i hamdden. Bu'n gryf ac yn ddewr, ac fel y dywed Elina yn y cwpld ar daflen ei angladd:

“Er i'w waeledd ei gaethiwo
Ni phylodd ei ffydd na'i wên o.”

Ymatebodd yn anrhydeddus i'r comisiwn cynnar a dderbyniodd yn ifanc yng Nghefn y Groes Fawr, Llansannan i fynd i fugeilio pobl – i ofalu am ei gyd-fforddolion. Diolchwn am ei fywyd a'i wasanaeth – bywyd a gyfoethogodd ein bywydau fel unigolion ac fel cymdeithas. Ei ymddygiad a'i weithgarwch oedd ei greddo. Ei fyw oedd ei werthoedd a'i ffydd.

Ieuan Wyn
(addasiad o'r deyrnged a draddodwyd yn y cynhebrwng)

Bu farw'r Parchedig John Owen Tachwedd 13, 2019 yn 91 mlwydd oed. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yng Nghapel Jerwsalem ac i ddilyn yng Nghladdfa Coetmor, Bethesda Tachwedd 25. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parch. Harri Parri, gyda'r canlynol hefyd yn cymryd rhan: Y Parch. W.H. Pritchard, Y Parch. Trefor Jones, Y Parch. Anna Jane Evans, Y Parch. A.M. Roberts, Ieuan Wyn, Y Parch. Eric Jones a'r Parch. Ddr. Elwyn Richards.



Sian Gwenllian
Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

Rachub a Llanllechid

Emlyn Williams, 13 Hen Barc, Llanllechid, Bangor, LL57 3RS. 01248 605582 a 07887624459 henbarc13@gmail.com

Capel Carmel

Trefn Gwasanaethau (am 5yp oni nodir yn wahanol.)

22 Rhagfyr: Gweinidog. Gwasanaeth Bore Nadolig am 10yb.

29 Rhagfyr: Carolau. 5 Ionawr: Gweinidog (Cymun) 12 Ionawr: Parchg. Dewi T. Morris (2yp) 19 Ionawr: Cyfarfod Gweddi (Diaconiaid) Croeso cynnes i bawb.

Cofion cynnes at yr aelodau sy'n sâl gan ddymuno gwellhad buan iddynt. Fel eglwys, anfonwn gyfarchion am Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i holl aelodau a chyfeillion yr achos.

Clwb Gwau Daeth yn amser i gasglu capiau a sgarffiau a gafodd eu gwau gan y merched yn ystod y flwyddyn. Derbyniwyd dros 50 o gapiau a llawer o sgarffiau a menyg ganddyn nhw. Diolch yn fawr i'r merched am wau mor ddiwyd. Mi fydd eu cynnyrch yn cael eu hanfon i focsys "Plentyn y Nadolig".

Newyddion

Croesawn adref Glenys Roberts (4 Hen Barc), Betty Jones (11 Ffordd Tanybwllch) ac Ann Tugwell (9 Ffordd Llanllechid) wedi cyfnod mewn ysbytai. Dymunwn yn dda iddynt.

Hefyd llongyfarchiadau mawr i Mrs Glenys Roberts 4 Henbarc a ddathlodd ei phenblwydd yn 90 yn mis Hydref a rydym yn falch ei bod yn well ar ôl amser yn yr ysbyty.

Llongyfarchwn Michael Williams, 13 Lôn Groes (07748 128644) ar gael ei gyfethol i Gyngor Bethesda ar gyfer Ward Rachub. Y mae Michael wedi bod yn weithgar yn y ward fel aelod o Bwyllgor Canolfan Rachub, yn gyd-



Rhai o ferched Clwb Gwau Carmel gyda'r capiau a'r sgarffiau.

arweinydd Ti a Fi Rachub, yn gydfrefnydd y Bwrlwm Hâf ac wedi codi arian at achosion da. Ar hyn o bryd y mae'n aelod brwd o Gôr Meibion Y Penrhyn. Fel y ddau gynghorydd cymunedol arall dros Ward Rachub (Pearl Evans 600153 a Godfrey Northam 600872), y mae'n aelod o'r Blaid Lafur.

Croesawn adref Iain a Janet Scott o siop Rachub, sydd wedi bod i Canada ar gyfer priodas perthynas; gan adael y siop yn nwylo diogel Rebecca, Esther a Katie.

Mae Cyngor Bethesda wedi penderfynu ysgrifennu at gymdeithas tai Adra i geisio sicrhau na fydd cerbydau'n parcio yn ffordd Llwyn Bleddyn yn ystod y cyfnod adeiladu yn rhan o Gae Rhosydd.

Mae'r cynghorydd Godfrey Northam wedi ymddiswyddo fel cadeirydd llywodraethwyr Ysgol Dyffryn Ogwen ar ôl naw mlynedd yn y gadair a sawl blwyddyn fel is-gadeirydd, ond y mae'n dal i aros fel aelod o lywodraethwyr Ysgol Llanllechid (lle y mae'n gadeirydd y pwyllgor cyllid) ac Ysgol Dyffryn Ogwen. Y cynghorydd sirol Paul Rowlinson yw cadeirydd newydd Ysgol Dyffryn Ogwen ac y mae'r cynghorydd Walter Williams yn aros fel cadeirydd llywodraethwyr Ysgol Llanllechid, ar ôl blynedd oed o wasanaeth yn y gadair.

Deallwn fod adeiladwr lleol wedi dangos diddordeb mewn prynu Canolfan Rachub, sydd wedi bod yn wâg ers sawl blwyddyn.

Bydd angen gwario'n sylweddol arni (oherwydd y pydredd) i gael llawr concrit, ail-blastro rhan isaf y waliau mewnol a chreu amddiffynfa rhag wlybaniaeth y tu allan gan fod llawr y ganolfan yn is na'r maes parcio. Y mae Cyngor Gwynedd wedi addo y bydd y maes parcio'n cael ei drosglwyddo i Gyngor Bethesda wrth i'r ganolfan gael ei gwerthu.

Gobeithio y bydd y gwaith o adnewyddu toeau Tan y Garth a Maes Bleddyn yn cael ei orffen cyn bo hir.

Cyfarchion Nadolig

Mae Gwilym Rees Evans, Ceunant, Llanllechid yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w deulu, cymdogion a'i ffrindiau i gyd.

Clwb Hanes Rachub a Llanllechid

Siaradwr gwadd y Clwb y mis hwn oedd yr Athro Deri Tomos,

y gwyddonydd poblogaidd. Roedd yn trafod y paneli llechi cerfiedig anhygoel sy'n amgylchynu lle tân enfawr yn Nhyddyn Dicwm. Gelwir y gwaith yn 'Llechen Bryn Twrw' hefyd gan mai yn y ffermdy hwnnw y darganfuwyd y campweithiau cyn eu hailgartrefu yn Nhyddyn Dicwm. Ceir cerfiadau arbennig o gywrain a manwl ar y llechi hyn - o blanedau, lleuadau, comedau, clip Haul [eclipse], arwyddion y Sidydd a llawer mwy. Ond yr hyn sy'n arbennig amdanynt yw eu bod yn ddarluniau cywir! Hefyd, mae'r lluniau wedi'u labelu yn Gymraeg - bron i gyd! Thomas Jones gyda chymorth William Jones oedd y crefftwyr a greodd y garreg. Anrheg priodas i Richard a Grace Jones oedd y campwaith, oddi wrth John William Thomas (Arfonwyson) o Bentir, gwyddonydd gwybodus oedd yn amlwg â diddordeb mawr mewn seryddiaeth, ac yn gwybod am bob math o lyfrau a darluniau am y pwnc. Darlith tu hwnt o ddiddorol! Diolch yn fawr iawn, Deri!

Cyfraniad

Cyfranwyd £20 tuag at Llais Ogwan er cof am William John Evans 15 Ffordd Llanllechid (helpar Sion Corn), a Glenys Evans Ceunant, gan Gwilym Rees, Karen, Tom a'r teulu.

Cydymeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at deulu Barry Pragnell, 19 Hen Barc, a fu farw yn sydyn yn ddiweddar ar ôl cystudd hir.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk

Croesair Llais Ogwan

AR DRAWS I LAWYR

- 1 Doeth
- 1 Mae Idwal wedi cael un wrth yr Wyddfa
- 3 Yr un mor ddoeth yn ôl, ond dim mor dynn 2 Ar goll wrth ddychwelyd i chwilio am elw
- 5 Coch neu frown 3 I drisant a deusant
- 8 Brenin estron ar ben wal ! 4 Wedi'i guddio
- 9 "I Adda hen ydoedd hi" 5 Yn swp ---
- 10 Bloedd y blaidd 6 Canu tawel
- 11 Dim ohono heb dân medd y ddihareb 7 Mae un coch ac i'r cefn hir ar yr ynys
- 13 Cyrchu 12 Chwalwyd un Berlin, ond D. Trump am un arall
- 15 Un o arwyddion y sidydd 14 Yn draddodiadol, cri'r matador yn Sbaen
- 17 Balm 16 Gair cyntaf y weddi enwocaf
- 19 Un o nwyddau'r sipsi erstalwm 17 Fel afon wyllt yn Eifionydd
- 21 Cael pawb efo'i gilydd 18 Ai cynllun cynilo wedi mynd i'r gwaelod un ?
- 24 Heb fod yn dda 19 Euog neu dieuog yn y llys
- 25 '--- wir!' arwydd o syndod 20 Man cyfathrebu modern
- 26 Llan enwog y sosban yn y de 21 Llosgi'n llwyr
- 27 Pwff o wynt 22 Paraffin erstalwm ar lafar, '--- lamp'
- 29 Meddai 23 Dictor ac atgasedd
- 31 Sam y dramodydd, tad Ifas y Tryc 28 Hogyn taid
- 33 Dryll neu gyllell 30 'Llond ---', wedi hen syrffedu
- 35 Côt yr iâr 32 'Arglwydd ein --- ni' (salm)
- 37 Gwaedd 33 Y cyntaf o'i fath meddai'r Llyfr
- 40 Un o'r 24 dyddiol 34 Cerbyd 4 olwyn i ben mynydd uchaf de Cymru
- 41 Tywyllu 35 --- copyn
- 42 --- Baba 36 'Merica
- 43 Merch Dolwar Fach 37 Adar sy'n tiwnio'n y coed, '--- y wig'
- 45 Wedyn 38 'Torri'r ---', plymio i ddŵr oer
- 47 Marathon 39 Golwg sydyn
- 49 Neidr wenwynig 44 Agosach
- 50 'Am ---', o hyd, heb ddiwedd 46 Mater di-liw fel yr un anadlwn
- 51 Credu'n ddigwestiwn 48 Lady ---, gwraig THPW

ATEBION CROESAIR TACHWEDD 2019
AR DRAWS 1 Gwaethygu, 5 Glud, 7 Haig, 8 Ymgeisydd, 9 Bloneg, 12 Anwadal, 15 Cyfaddef, 19 Stordy, 21 Gwrywaidd, 22 Elliw, 23 Deau, 24 Trugaredd
I LAWYR 1 Gohebu, 2 Esgyn, 3 Ymysg, 4 Utgorn, 5 Geirfa, 6 Dydd Sul, 10 Olaf, 11 Efydd, 12 Arf, 13 Wast, 14 Dewr, 15 Cysgod, 16 Arsyllu, 17 Emrallt, 18 Sylwedd, 19 Seddau, 20 Opera, Ychydig o gamgymeriadau y tro hwn, sef 'Storfa' yn lle 'Stordy' (19 Ar Draws), 'Dwfr' yn

1		2		3		4		5		6		7
		8				9				10		
11	12			13	14			15	16			
17		18		19		20		21		22		23
		24				25				26		
27	28			29	30			31	32			
33		34		35		36		37		38		39
		40				41				42		
43	44			45	46			47	48			
49				50				51				

lle 'Dewr' (14 I Lawr), 'Elis' yn lle 'Elliw' (22 Ar Draws), 'Nawsedd' yn lle 'Sylwedd' (18 I Lawr), 'Draw' yn lle 'Deau' (23 Ar Draws), Ac 'Arsylw' yn lle 'Arsyllu' (16 I Lawr).

Beth am dipyn o hwyl ! Dyma groesair gwahanol i'ch diddori y tro yma efo pob ateb, Ar Draws ac I Lawr, yn dair llythyren. Diolch i nifer dda ohonoch anfonodd air o ddiolch a chyfarchion Nadolig. Dwi'n gwerthfawrogi'r cyfan ac yn dymuno Nadolig Llawn iawn i bob un ohonoch chithau. Cafwyd atebion cywir gan y canlynol : Barbara

Jones, Jean Hughes, Talybont; Elizabeth Buckley, Dulcie Roberts, Tregarth; David T. Hughes, Cyffordd Llandudno; Dilys Wyn Griffith, Abergele, Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; John Huw Evans a Rhian Evans Hill, Llanberis; Iona Williams, Llanddulas; M. A. Jones, Rachub; Doris Shaw, Bangor; Rita Bullock, Lleucu Bryn, Gwen Evans, Gaynor Elis-Williams, Bethesda, Gwenda Davies, Llanfairpwll. Da iawn bawb. Llongyfarchiadau mawr am gipio'r wobr i Dulcie Roberts, 1 Ffrwd Galed, Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4PF

Atebion erbyn 3 Ionawr, 2020 i 'Croesair Rhagfyr'
Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

Enw

Cyfeiriad



CYSTADLEUAETH STORI FER CARA

Annwyl ddarllenwyr,
Oes gennych chi stori yn llechu yn eich meddwl ac ydych chi'n ysu am ei sgwennu ar bapur? Wel, dyma'ch cyfle chi!

Mae cylchgrawn Cara yn cynnal cystadleuaeth stori fer, ar y testun Adra / Adre / Cartref.

Mae cyfle i chi ennill £100 i'w wario ar wefan www.adrahome.com a chael eich stori wedi ei chyhoeddi yn y cylchgrawn. Y beirniad yw'r awdur poblogaidd Manon Steffan Ros, a'r dyddiad cau yw Diwrnod Santes Dwynwen, 25 Ionawr 2020.

Mae'r manylion llawn, ynghyd â'r ffurflen gais, yn rhifyn gaeaf Cara, sydd ar gael yn y siopau nawr, ac ar ein gwefan www.cara.cymru. Croeso i unrhyw un roi cynnig arni!

Neu beth am brynu tanysgriaf 1, 2, 3 neu 4 blynedd i ffrind neu aelod o'r teulu fel anrheg Nadolig gwahanol eleni? Fe gewch chi gerdyn Nadolig unigryw Cara a chopi o'r cylchgrawn drwy'r post.

Diolch o galon am eich cefnogaeth yn 2019. Mae Cara yn edrych ymlaen at ddegawd newydd, gyffrous!

Meinir ac Efa, Tîm Cara



Panto 2020






Ydach chi'n adnabod y cymeriadau hyn? Efallai eich bod yn cofio'r cyntaf o bantomeim 2017 Cwmni Drama Llechen Las, sef Zippo Zipare.

Wel, y llall ydi Berwyn Boncers, a bydd cyfle i gyfarfod ag ef yn y pantomeim diweddaraf, **Llanast Llan** ar 17 a 18 o Ionawr - pedwerydd panto Cwmni Drama'r Llechen Las.

Cewch gyfle i weld y miri rhyfeddaf wrth i drigolion y pentref geisio adeiladu roced i achub dau o bobl Bethesda sydd ar goll yn y gofod..... Sut yn y byd ddigwyddodd hyn? Wel mi fydd yn rhaid i chi ddod draw i Neuadd Ogwen i gael gweld.

Bydd cyfle i chi weld wynebaw cyfarwydd yn edrych braidd yn anghyfarwydd ac ambell i wyneb newydd yn cymryd swyddogaethau pur od!

Archebwch eich seddi yn fuan.....rhag cael siom. Bydd tocynnau ar gael o Neuadd Ogwen.




Braichmelyn

Rhiannon Ifans, Glanaber, Pant, Bethesda ☎ 600689

Penblwydd arbennig
Dymuniadau gorau i Mrs Nita Jones, 53 Braichmelyn fydd yn dathlu penblwydd arbennig ddechrau mis Ionawr. Gobeithio y cewch ddiwrnod da, Nita.

Gwarchodfan Bysiau Pont y Tŵr
Mae pryder yn yr ardal am ddyfodol y warchodfan bysiau ar waelod y grisiau, ac mae chwe mis wedi ei roi i drafod y mater gan y Cyngor. Cefnogwch eich cynghorydd lleol Ann Williams – sydd eisiau cadw'r warchodfan i drigolion yr ardal.

Nadolig dedwydd i bawb a Blwyddyn Newydd Dda.



Marchnad Ogwen

Cyfarchion yr Ŵyl a diolch i'n holl gwsmeriaid

Croeso cynnes ar yr 2ail Sadwrn yn fisol

Neuadd Ogwen, Bethesda

9.30 y bore tan 1 o'r gloch



www.marchnadogwen.co.uk

Cystadlu

Bydd mwy o hanes Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen yn rhifyn mis Ionawr.



Rhaglen o Adloniant Uwchradd : Ensemble Ysgol Syr Huw, Caernarfon - 1af.



Unawd Derbyn - Erin Môn Roberts, Ysgol Llanllechid - 1af; Côt Ogwen, Ysgol Llanllechid - 2il; Mali Non ac Efa Rhodd, Ysgol Abercaseg - Cydradd 3ydd.



Gwersi Canu 3-11 oed Meinir Lloyd Jones

Ystod o genres: clasurol, traddodiadol Cymreig, cerdd dant, sioe gerdd, gwerin... Eisiau cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd 2020?

CYSWLLT: meinir.jones@googlemail.com neu 07746 069959
Tal-y-Bont, Bangor



Llefaru Blwyddyn 1 - Elsi Allsopp - 1af; Efan Henri - 2il; Lili Herbert ac Aled Gwyn Llywelyn - cydradd 3ydd; (I gyd o Ysgol Llanllechid.)

L. Sturrs a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953

lsturrs@googlemail.com

Modurdy Central

M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda

☎601031

Egwyd plewyl dros nos
Egwyd dros nos a'u teulu
Gwasanaeth Cefnogi
Gweithgareddau
Gwirfoddoli

Amser ni

A oes ganddoch ddi-ddordeb mewn gwirfoddoli gyda plant anabl a'u teuluoedd?

NEU

A oes ganddoch ddi-ddordeb rhoi egwyl fer i blentyn anabl dros dro?

☎ (01286) 674 686
✉ AmserNi@Gwynedd.Llyw.Cymru

Slimming WORLD

Clwb criced a bowlïo Bethesda

Bob dydd Iau
9.30yb, 4yp a 6yh

Ffoniwch Manny
07557532380

MODURDY FFRYDLAS

Proffion
M.O.T.

Perchennog
A. L. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAW
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192
Angharad Williams,
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

Capel Shiloh, Tregarth

Gwasanaethau yn Shiloh am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol.

22 Rhagfyr: Oedfa Deulu y Nadolig yng nghwmni plant, ieuencid ac oedolion y capel gyda chwmni y Parchedig Jennie Hurd.
24 Rhagfyr: Gwasanaeth Cymun Noswyl y Nadolig am 6 o'r gloch
29 Rhagfyr: Trefniant Lleol
5 Ionawr: Richard Gillion - gwasanaeth Cymun
12 Ionawr: Gwynfor Williams, Caernarfon
19 Ionawr: Richard O. Jones, Gaerwen
26 Ionawr: Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid

Diolchgarwch yn Shiloh

Nos Sul, 13 Hydref cynhaliwyd Oedfa Deulu yng nghwmni ieuencid Shiloh. Cymerwyd rhan gan Gwenno a Iestyn, Nel a Myfi, Aziliz, Mali a Nanw, Anwen Griffiths, Elin Sanderson, Val Ellis Jones, Christine Morris Jones a Ffion Kervegant. Daeth y Parchedig Eric Jones o Fangor i roi sgwrs yn ymwneud â'r cynhaeaf a'r diolchgarwch a phwysigrwydd gofalu am y greadigaeth drwy'r holl fyd.


Yna nos Lun, 14 Hydref cafwyd pregeth y Diolchgarwch gan ein gweinidog, y Parchedig Richard Gillion.

Drws Agored

Oes, mae na ddrws agored yn Shiloh bob bore Gwener rhwng deg o'r gloch a hanner dydd. Beth am droi i mewn am gwmni, sgwrs a phaned?

Cydymdeimlad

Anfonwn ein cydymdeimlad fel aelodau gyda Rhian Evans-Hill, Rhiwlas, a'r teulu yn eu profedigaeth o golli tad yng nghyfraith yn ystod mis Rhagfyr.



Er cof

Dymuna teulu y diweddar Edith Elizabeth Hughes, gynt o 5 Erw Faen, Tregarth ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad yn eu colled, a'r haelioni am gyfrannu £400 er côf amdani. Fe rennir yr arian rhwng Ysgol Pen Dalar a'r Ambiwylans Awyr.



Gair o ddiolch

Diolch o galon i'r holl aelodau a ffrindiau yr achos yn Shiloh am eich cyfraniadau wythnosol ar gyfer y Banc Bwyd. Caredig dros ben.

Yr un ydi'r diolch i chi am eich cyfraniadau o deganau ac anrhegion Nadolig ar gyfer plant a ieuencid sydd yn elwa o gymorth Gweithredu dros Blant.

Eglwys y Santes Fair

Gwasanaethau
22 Rhagfyr: 9.30yb - Cymun Bendigaid
24 Rhagfyr: 4yp - Gwasanaeth Preseb
Dydd Nadolig: 9yb - Cymun Bendigaid
29 Rhagfyr: Dim gwasanaethau - ymuno gyda St Cedol, Pentir am 9.30yb
5 Ionawr: 9.30yb - Boreol Weddi

Cawsom Ffair Nadolig llwyddiannus ac hefyd yr un penwythnos, Gwasanaeth Carolau Adfent. Braf croesawu nifer da i'r ddau achlysur.

Priodas

Llongyfarchiadau i Manon Lloyd Roberts ar ei phriodas â Dale Cassidy, yng Ngwesty Carreg Bran ym mis Tachwedd. Mae Manon yn ferch i Sulwen a Goronwy Roberts, 28 Bro Syr Ifor, yn fam i Alaw, a chwaer i Sioned Delyth a Gavin. Ar ôl mis mêl yn Rhufain mae'r ddau adref yn ôl yn eu cartref yn Dwygyfylchi.

Ysbyty

Mae Sioned Roberts, Bro Syr Ifor wedi bod yn yr ysbyty yn Manceinion yn ddiweddar. Mae Sioned sy'n ferch Sulwen a Goronwy, wedi derbyn aren a phancreas newydd ddechrau'r flwyddyn. Gobeithio dy fod yn teimlo'n well o lawer, Sioned.

Babi Newydd

Llongyfarchiadau i Iona a Guto Williams, Y Fenallt, Tal y Cae ar enedigaeth bachgen bach ym mis Medi, sef Elgan Gwilym, brawd bach i Eila. Mae Nain a Taid Bangor sef Nesta a Iolo Williams wrth eu bodd gyda'r wŷr bach Newydd. Cofion atoch i gyd fel teulu.

Yn yr Ysbyty

Cafodd Carys Williams, Y Garreg Wen, Tal y

Cae lawdriniaeth yn Ysbyty Walton, Lerpwl yn ddiweddar. Gwellhad llwyr a buan i ti Carys gan bawb yn Nyffryn Ogwen.

Llais ar y Radio

Diddorol oedd clywed llais John Gwilym Owen, 9 Tal y Cae ar y radio yn sgwrsio gyda Aled Hughes yn y bore. Cawsom wybodaeth fanwl a difyr iawn am deulu y Penrhyn gan Gwilym sydd wedi bod yn gwneud gwaith ymchwil i Ystad y Penrhyn yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Mae Gwilym yn ddarlithydd yn Adran y Gyfraith ym Mhrifysgol Bangor.

Merched y Wawr Cangen Tregarth



Angharad Hughes ac Alwenna Puw yn dathlu 50 mlynedd Cangen Tregarth Merched y Wawr

Bu'r gangen yn dathlu'r aur yng Nghlwb Rygbi Bethesda, ar nos Lun, 4 Tachwedd. Ydi, mae'r gangen wedi cyrraedd carreg filltir go arbennig eleni, sef dathlu hanner can mlynedd o fodolaeth. I ddathlu trefnwyd swper bys a bawd yn y Clwb Rygbi a daeth nifer dda iawn o'r aelodau ynghyd i sgwrsio, chwerthin a hel atgofion lu. Hyfryd oedd cael croesawu y Llywydd Cenedlaethol sef Meirwen Lloyd o Llanrug, Ann Ellis yr Ysgrifennydd Cenedlaethol o Fethel a Gwyneth Jones, Llywydd Rhanbarth hefyd o Fethel. Llongyfarchwyd y gangen am eu gwaith heriol a phenderfynol yn ystod y blynyddoedd ac am roi profiadau amhrisiadwy i'r aelodau a'r gymuned. Diolchwyd i bawb am eu hymroddiad gan Lywydd y gangen am eleni sef Myfanwy Harper.

Paratôdd un o'r aelodau, sef Jên Margiad Temple Morris deisen ddathlu fendigedig ac roedd yn braf iawn fod dwy o'r aelodau cychwynnol yno i'w thorri, sef Angharad Hughes ac Alwenna Puw. Ymlaen rwan genod i'r hanner can mlynedd nesa!
Ar 2 Rhagfyr yn Festri Capel Shiloh dathlwyd

y Nadolig yng nghwmni Cecile Williams o Fethel. Trefnu blodau oedd thema'r noson ac fe gawsom arweiniad gan y wraig wadd sy'n frodor o Ffrainc ac wedi meistroli ein hiaith yn ardderchog. Gwnaeth pawb drefniant bychan o flodau ac roedd y Festri yn werth ei gweld gyda'r holl liwiau lliwgar. Diolchodd Margaret Jones i Cecile a pharatowyd y baned gan Ffion ac Angharad.

Dymunwyd gwellhad buan i Carys ar ôl y lawdriniaeth yn Walton a chydymdeimlwyd gyda Elina Owen a gafodd brofedigaeth ddiweddar o golli ei phriod y Parchedig John Owen. Cydymdeimlwyd hefyd gyda Rhian Evans Hill a gollodd ei thad yng nghyfraith o fewn y dyddiau diwethaf.

Bydd y gangen yn agored nesa ar 3 Chwefror gyda Paula Roberts yn sôn am ei thaith i'r Antartig. Dowch i ymuno gyda ni yn Festri Capel Shiloh am hanner awr wedi saith.

Clwb Cant Canolfan Tregarth

Mis Tachwedd

1af: 34 - Olwen Jones
2il: 87 - Enid Roberts
3ydd: 35 - Tudor Jones

Mis Rhagfyr

1af: 40 - Sulwen Roberts
2il: 20 - Pauline Jones
3ydd: 42 - Betty Jones

Pêl Bonws Nadolig

16: Gerallt Williams

SIOP
OGWEN

33 Stryd Fawr, Bethesda

Peidiwch anghofio am Siop Ogwen.
Galwch draw!

Anrhegion a chrefftau lleol, Cardiau,
Llyfrau, Coffi Poblado, Jam Cartra,
CDs, Lluniau, Gemwaith, Sebon,
Canhwyllau, Dillad, Golwg, Y Cymro,
Llais Ogwan a llawer mwy!

Cewch archebu llyfrau Cyngor Llyfrau
Cymru trwy'r siop, neu gylchgronau
(e.e. Barn, Mellten, Bore Da,
Y Traethodydd, O'r Pedwar Gwynt
ayyb) a CDs hefyd.

Ar agor ddydd Mercher (10-2),
Dydd Iau /Gwener (10-5) a dydd
Sadwrn (10-3).

siop@ogwen.org

01248 208 485

YSGOL TREGARTH

Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Da iawn i bawb o Ysgol Tregarth a ymdrechodd yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen yn ddiweddar.

Yn sicr roedd safon y cystadlu yn uchel iawn. Hoffem longyfarch Esther Parry am ennill y wobr gyntaf yn yr uned llynynnol, 1af am yr unawd biano, 2il am ganu a gwobr arbennig am y perfformiad orau yn yr adran gerdd.

Hefyd cafwyd cryn lwyddiant yn yr adran gelf y flwyddyn yma. Llwyddodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 i gipio'r gwobrau ail a thrydydd yn y gystadleuaeth arlunio. Aeth y gwobrau i Jessica Rockliff a Joel Hardman.

Plant Mewn Angen

Casglwyd £138 i achos 'Plant Mewn Angen' wrth i'r disgyblion dalu £1 i wisgo pyjamas a chymryd rhan yng nghystadleuaeth gwallt gwirion - da iawn chi blant! Bu llawer o rieni a phlant yn brysur yn coginio cacennau at y diwrnod, diolch yn fawr iawn i bawb am gyfrannu a chymryd rhan.



Gala Nofio

Cynhaliwyd gala nofio'r Urdd ym mhwl nofio Bangor yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i blant cyfnod allweddol dau am gymryd rhan yn y gystadleuaeth. Bu Mark O'Malley yn llwyddiannus iawn yn y gala - 1af wrth nofio dull broga, pob lwc iddo yng Nghaerdydd flwyddyn nesaf.

Castell Biwmares

Thema Dosbarth Llywelyn y tymor yma yw 'Cestyll a Dreigiau', felly i ffwrdd â ni am dro i Gastell Biwmares, er mwyn cael dysgu mwy am yr hanes a gweld rhannau amrywiol sydd yn yr adeilad. 'Roedd yn ddiwrnod bendigedig, a phawb wedi mwynhau cael teithio o amgylch y castell.

Cinio Nadolig

Diolch o galon i Anti Shirley ac i Anti Fiona am ein cinio Nadolig blasus. Mae'r ddwy yn gweithio'n hynod o galed drwy'r flwyddyn i wneud cinio i bawb. Cinio Nadolig llwyddiannus unwaith eto!

PC Owain Edwards

Cafodd dosbarthiadau CA2 ymweliad gan PC Owain Edwards. Cyflwynodd wersi i ddosbarthiadau Ogwen a Ffrydlas yn canolbwyntio ar sylweddau, alcohol a chyffuriau. Cafwyd gwrandawriad ac ymateb da gan y plant oedd yn awyddus i ddysgu.

Gweithdy Andy Dimone Birch

Dros y misoedd diwethaf bu Cyngor Ysgol Tregarth yn brysur iawn yn trefnu digwyddiadau er mwyn codi arian i wella golwg yr iard. Teimlai'r plant ei fod yn llwm a thywyll a roeddynt yn dyheu am gael lle hardd a lliwgar i chwarae ynddo.

Felly, cysylltodd y plant gyda Mr Andy Dimone Birch sydd wedi cwblhau prosiectau graffiti mewn sawl ysgol erbyn hyn, a daeth i'r ysgol ddiwedd mis Tachwedd i gynnal gweithdy graffiti gyda'r adran Iau. Bu'r plant yn brysur yn ysgrifennu eu henwau ar ffurf graffiti ac yn cynllunio darluniau ar gyfer pedair o fyrddau graffiti fydd yn cael eu gosod ar yr iard gefn. Hefyd, cafwyd y disgyblion ddysgu am brofiadau Mr Birch ac am ble a phryd mae'n addas i wneud graffiti. Cafwyd diwrnod arbennig iawn ac roedd yr holl blant wedi mwynhau y profiad unigryw yma.



Gweithdy graffiti gyda'r artist graffiti, Andy Birch

Tê prynhawn

Bu disgyblion Dosbarth Idwal (Meithrin a Derbyn) yn diddanu rhieni a ffrindiau yn ddiweddar drwy gynnal tê prynhawn a chyngerdd yn yr ysgol. Roedd y disgyblion wedi paratoi bwyd blasus i bawb a dysgu pentwr o ganeuon. Roedd yn braf iawn cael gwahôdd rhieni atom i'r ysgol a chael cyfle i sgwrsio. Mae pawb yn edrych ymlaen at y tê prynhawn nesaf!

Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref,
Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280
Eirlys Edwards, Sŵn y Coed,
23 Pentref Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 351633

Eglwys Sant Tegai, Llandygai

Nadolig Llawnen!
Fel cynulleidfa hoffem ddymuno Nadolig
Llawnen i bawb yn Nyffryn Ogwen. Boed
bendith yr Ŵyl ar eich teuluoedd a'ch
cartrefi. Dymuniadau gorau hefyd i bawb
sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn
ddiweddar.

Bingo'r Nadolig

Cafwyd cyfle arall i fwynhau hwyl a sbri
Bingo St Tegai ar ddydd Iau, 21 Tachwedd
am 7 o'r gloch yn Neuadd Talgai y pentref.
Cyfrannodd yr elw o dros £140 at Gronfa
Atgyweirio'r Eglwys a hoffem ddiolch i
Pauline a Raymond am arwain yr hwyl.

Blodau'r Nadolig

Cafwyd sesiwn arddangos sut i osod
blodau ar gyfer y Nadolig gan Mrs Barbara
Murcutt yn Neuadd Talgai ar brynhawn
Sadwrn y 7fed gyda lluniaeth ysgafn gan
deulu Mrs Mair Leverett. Diolch iddynt
am eu llafur a'u hamser er budd Eglwys
Llandegai.

Raffl Santes Dwynwen a Bingo'r eglwys nos
Iau, 30 Ionawr

Mae'n draddodiad erbyn hyn i aelodau'r
eglwys werthu tocynnau raffl i ennill potel
"champagne" i ddathlu diwrnod Santes
Dwynwen. Bydd y tocynnau ar werth o'r
Nadolig ymlaen a bydd y tocyn buddugol
yn cael ei dynnu yn noson Bingo yr eglwys
ar nos Iau, 30 Ionawr am 7 o'r gloch yn
Neuadd Talgai. Dewch i'r Bingo i ysgafnhau
nosweithiau llwm mis Ionawr!

Rhagrybudd Gwasanaethau'r Nadolig
Eglwys Sant Tegai

Bwriedir cynnal gwasanaeth dwyieithog
traddodiadol Naw Llith a Charol ar nos Sul,
22 Rhagfyr am 5 y pwnn. Bydd lluniaeth
ysgafn Nadoligaidd yn Neuadd Talgai ar ôl
y gwasanaeth. Cynhelir gwasanaeth Noswyl
y Nadolig am 11 y nos ar 24 Rhagfyr.

Ni fydd gwasanaeth yn yr Eglwys ar Ddydd
Nadolig ond bydd cyfle i ddathlu'r ŵyl yn
Nhregarth am 9 neu yn St Cross am 10.30.

Dydd Sul, 29 Rhagfyr am 9.30yb bydd
gwasanaeth ar y cyd gyda chynulleidfa St
Cedol Pentir.

CHWILAIR

Prifddinasoedd Ewrop

A	A	W	F	H	M	A	D	R	I	D	R	I	E	J	L	C	M	B	V
B	H	X	J	U	H	I	S	V	S	H	E	I	M	G	V	H	M	D	W
H	U	Z	M	C	A	E	R	D	Y	D	D	X	V	A	D	D	N	A	P
A	U	Q	U	S	O	F	L	R	P	Y	Q	Z	G	R	H	C	U	M	W
N	D	R	O	Y	R	I	A	S	O	S	L	O	S	Z	U	T	F	D	X
U	U	P	H	W	R	H	C	Q	I	H	W	E	H	O	Y	E	E	G	E
O	L	M	H	U	E	P	T	T	C	N	B	B	C	U	U	J	P	L	T
M	Y	I	V	V	F	D	C	B	B	F	K	R	F	O	G	J	V	I	I
R	N	R	X	I	M	A	H	T	T	O	S	I	K	O	P	W	R	C	M
K	I	C	B	O	R	C	I	X	V	R	Y	H	S	T	M	R	E	F	Y
J	D	D	Z	H	B	C	W	N	W	O	S	C	R	A	I	X	N	I	L
X	E	J	J	M	B	A	W	T	E	X	M	D	X	K	F	U	P	C	Q
Y	R	O	I	L	S	F	E	R	Z	Q	R	O	C	T	D	N	G	W	S
L	E	Z	E	R	B	E	A	J	K	J	C	L	N	L	I	R	V	O	G
J	A	P	A	W	P	G	S	O	W	J	J	Q	U	A	L	F	S	V	T
X	C	W	E	U	G	H	S	L	Z	E	A	N	D	F	X	I	W	T	Z
B	R	A	T	I	S	L	A	V	A	H	R	N	K	V	A	G	B	N	K
A	D	S	I	K	O	G	D	H	B	E	U	S	I	U	R	O	X	A	G
X	L	I	S	B	O	N	R	A	B	L	E	E	K	K	D	A	N	T	O
G	W	B	M	B	J	R	F	U	L	N	K	B	Z	E	B	B	C	U	Y

Yn y chwilair mis yma mae enw DEUDDEG O
BRIFDDINASOEDD EWROP i'w darganfod,
Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes
modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae
LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y
Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir
hwynt fel dwy lythyren ar wahân).
Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre
Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda,
Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 28
RHAGFYR. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf
allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi
canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn
cael y wobr.
Dim cymaint ohonoch wedi ceisio ar y
chwilair y mis diwethaf, ond rhai enwau
newydd wedi rhoi cynnig. Prifddinasoedd
Ewrop yw'r testun ar gyfer Rhagfyr, gan
obeithio y cadwith chi yn brysur tros yr
Ŵyl. Byddwch yn ofalus gan fod diwedd un

enw yn ddechrau ar enw arall mewn rhai
achlysuron. Nadolig Llawnen a Blwyddyn
Newydd Dda i chwi oll.
Dyma atebion Tachwedd: Bryn o Briten;
Lladron y Nos; Maes Chwarae; Match o Ddy
De; Nadolig Bryn Coch; O Mam Bach; Rhyfel
Cartra; Traed Moch; Trwy Ddirgel Ffyrdd;
Y Gwir yn Erbyn y Byd; Yn Nhy Fy Nhad;
Y Trip. Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb
cywir:- Barbara Conlan, Glanogwen; Mair
Jones, Bryn Onnen, Bethesda; Elizabeth
Buckley, Tregarth; Gwenda Bowen, Gerlan;
Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Marilyn Jones,
Glanffrydlas; Dilys A. Pritchard-Jones,
Abererch. Gwenda Roberts, Rhosmeirch;
Elin Rees Williams, Rhosmeirch, Elfed
Bullock, Maes y Garnedd; Doris Shaw,
Bangor. Enillydd Tachwedd oedd. Gwenda
Roberts, Gorwel Deg, Rhosmeirch, Ynys
Môn, LL77 7SJ.

JRSKAFFALDIAU Cyf.JR

SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA,
GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)

CITB

I hysbysebu yn
Llais Ogwan,
Neville Hughes
600853
(nev_hughes@
btinternet.com)

Caerhun a Glasinfryn

Cylch Glasinfryn

Daeth yr Wyl yn gynnwys i'r Cylch yng nghwmni yr unigryw Norman Evans gyda'i draddodiadau Nadolig. Mae cwmni Norman yn bleserus bob amser a'i waith yn drefnus a diddorol. Mae ei grefft o osod blodau yn syml ac effeithiol ac yn ychwanegu at ei ddawn o ddweud stori.

Enghreifftiau o draddodiadau'r Nadolig drwy gynllunio gosodiad o flodau oedd y testun ac enghraifft y Torch (Nadolig) Adfent sy'n cynnwys canhwyllau lliw a chelyn. Defnyddiodd ganhwyllau o liw porffor, pinc a gwyn i'n hatgoffa o Obaith, Cariad, Llawenydd a Thangnefedd, a'r aeron coch ar y celyn yn cynrychioli gwaed yr Iesu.

'Roedd yn werth gweld yr addurniadau bach syml i ddisgrifio y traddodiadau. I ddiweddu'r sgwrs canodd Norman Garol y Plygain sef "Roedd yn y wlad honno", diweddglo hyfryd i'r noson. Pleser oedd cael ei gwmni a llawer o ddiolch am ei gyfraniad at y raffl. Diolchwyd iddo gan Marian. Cafwyd paned wedi ei pharatoi gan Ann a Marian.

Byddwn yn cyfarfod nesaf i gael ein cinio Nadolig yn Bistro Seiont. Edrychwn ymlaen!

Opera Poded

Cafwyd noson arbennig yn y Ganolfan ar 15 Tachwedd pryd perfformiwyd Opera un act o waith

Pergolesi - La Serva Padrona (Y forwyn oedd am fod yn feistres). Yn cymryd rhan oedd Organ Prawang, sydd yn gwneud Doethuriaeth ym Mhrifysgol Bangor, ac yn wreiddiol o Wlad Tai, y bariton o Amlwch, Keifer Jones, y ddau gyda lleisiau bendigedig. Cymerodd yr actor Andrew Agace ran "distaw" hefyd, ond yn ychwanegu at y cyflwyniad! Cafwyd awyrgylch hyfryd yn y Ganolfan gan fod y Neuadd wedi ei gosod allan fel tŷ tafarn ac 'roedd agosrwydd y perfformwyr yn ychwanegu at y cyflwyniad gwyb. Marian Bryfdir oedd y Cyfarwyddwr Artistig, mae ein dyled yn fawr i Marian am drefnu'r noson unigryw hon, edrychir ymlaen at rai tebyg yn y dyfodol!

Bingo Bach

Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd at y Bingo a gynhaliwyd yn y Ganolfan ar 1 Tachwedd er budd Clefyd y Galon. Codwyd £155 tuag at Gronfa Fasciwlwr Ysbyty Gwynedd. Cynhelir Bingo Nadolig ar 13 Rhagfyr gyda'r elw yn mynd at achosion da lleol.

Yn yr Ysbyty

Pob dymuniad da am wellhad llwyr a buan i Miss Margaret Griffith, Caerhun sydd wedi bod yn glaf yn Ysbyty Gwynedd, ac yna yn yr Eryri, Caernarfon yn dilyn codwm yn ei chartref.

Marchnad Ogwen

Am noson! Llwyddiannus, hapus, cymunedol, Nadoligaidd, Cymreigaidd, prysur, canu hyfryd, lobsnows gwerth chweil... a llawer mwy! Dyma rhai o'r geiriau a gafwyd yn ymateb i'r Farchnad Nos ar 20 Tachwedd. Do, fe gafwyd noson ardderchog. Diolch i bawb a fu yn ein cefnogi a diolch i'r Boncathod am roi naws arbennig i'r noson ac am gasglu tuag at yr Ambiwylans Awyr.

Bydd hanes llawn Marchnad Rhagfyr yn Llais Ogwan mis Ionawr.

Mae nifer o'n cwsmeriaid wedi defnyddio eu 'cerdyn glas' sef ein ffordd ni fel Marchnad o ddweud diolch am ein cefnogi. Mae'r holl gardiau a ddefnyddiwyd dros y flwyddyn wedi eu rhoi mewn het a'r enillydd yn cael taleb gwerth £50 i'w wario yn y Farchnad yn ystod Ionawr neu Chwefror. Mae'r enw wedi cael ei ddatgelu ym Marchnad Rhagfyr ac ar Facebook y Farchnad.

Rydym angen mwy o stondinau bwyd yn y Farchnad - yn arbennig bara, cig, pastai sawrus a melys a rhai cacennau (dim cypcêcs). Mae angen Sgôr Hylendid Bwyd o 4 neu 5. Cysylltwch â'r ysgrifennydd os oes gennych ddiddordeb.

Mae gwybodaeth lawn am y Farchnad ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk ac ar Facebook y Farchnad. Ionawr, Chwefror ac Awst yw'r unig fis oedd sy'n rhydd i gael Stondin Elusen ym Marchnad Ogwen. Y cyntaf i'r felin..

Diolch o galon am eich cefnogaeth yn ystod 2019 a phob dymuniad da dros yr Ŵyl a'r Flwyddyn Newydd.

Stondin y Mis - Deli de Bruin

Dechreuodd Angharad de Bruin arbrofi gyda gwahanol rysetiau fegan tua thair blynedd yn ôl, ac erbyn hyn mae hi'n gwerthu cynnyrch fegan yn lleol dan yr enw Deli de Bruin.

Defnyddia Angharad ei threftadaeth o Gymru a Sri Lanka i greu ystod o bates blasus. Mae ei phate tomatos heulsiych, ffacys coch a chnau cashew, gyda'i gic sbeislyd, wedi ennill gwobr 2* y 'Great Taste Awards', a cheir cyffyrddiadau melys yn y pate pupurau cymysg, ffacys brown a chnau cyll. Mae'r pate ffacys gwyrdd, cnau Ffrengig a madarch yn cynnwys perlaysiau, ac yn atgoffa Angharad o'r rhai o'r arogleuon bendigedig a ddeuai o gegin ei nain ers talwm - ond gydag un cynhwysyn ychwanegol fyddai ddim wedi cytuno efo nain o gwbl - garleg!!!

Yn ogystal â'u rhoi ar gracer neu dost, gellir defnyddio'r pates mewn lluo o wahanol rysetiau - beth am eu rhoi yn eich taten bob, eu hychwanegu at lysiau rhost mewn brechdan neu eu troelli mewn pasta poeth? Mae'r posibilïadau yn ddiabercasben draw gyda pates Deli de Bruin!!



Deli de Bruin

Contractwyr Trydanol Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



Côr y Penrhyn

gan Derfel Roberts

Cipio'r wobr gyntaf
Bu'r côr yn fuddugol yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen ar nos Wener, 15 Tachwedd a hynny mewn cystadleuaeth lle'r oedd pump o gorau'n cystadlu. Canwyd tri darn a phlesiwyd y beirniad yn fawr gan ymdriniaeth y côr o'r darnau.

Dywedodd Owain Arwel Davies, yr arweinydd, ei fod yn falch o bawb, a bod y côr wedi canu'n hynod o gerddorol. Er gwaetha'r ffaith i'r aelodau orfod aros am amser hir cyn cael mynd ar y llwyfan teimlai pawb mewn ysbryd da ac roedd yr aelodau'n bositif ynghylch eu gallu i roi perfformiad hyderus. Mae perfformio o flaen cynulleidfaoedd mawr yn ail natur i aelodau Côr y Penrhyn bellach ac mae pawb yn derbyn bod cystadlaethau eisteddfodol yn dod â llawenydd a siomedigaethau i'w canlyn.

Meddai Alun Davies, swyddog technegol y côr: "Llongyfarchiadau Côr y Penrhyn - cyntaf wedi hir ymaros.



Hogia Côr y Penrhyn yn dathlu ennill Tlws yr Eisteddfod. Yn y llun mae Idwal Jones, Rheinalt Davies, Caleb Rhys Jones ac Alun Davies.

"Diolch i Arwel a Fran am eu gwaith wrth gwrs, a diolch i'r aelodau am eu hymroddiad a'u hamynedd. Bydd y Tlws eisteddfodol yn cael ei arddangos yn ffenestr y côr ar Stryd Fawr Bethesda."

Perthyn - Prosiect arbrofol yn ysgogi'r meddwl
Daeth rhan gyntaf y prosiect i ben gyda pherfformiad i wahoddedigion yn Neuadd fawr Castell Penrhyn. Ffrwyth ymdrechion Siwan Llynor ac aelodau'r côr dan arweiniad Owain Arwel oedd y cyflwyniad arbrofol hwnnw. Er bod canu pedwar llais arferol yn y cyflwyniad roedd ceisio creu sŵn peiriannau a chynnwrf bywyd y chwarel yn rhoi dimensiwn newydd i'r cyflwyniadau. Roedd hefyd ymdrech i gyd-gordio enwau mynyddoedd Dyffryn Ogwen fel 'Pen yr Ola Wen' i lefaru ailadroddus fel bod rhyw banorama lleisiol o gefndir diwydiannol, daearyddol a hanesyddol y fro yn dod ynghyd.

Roedd cryn dipyn o waith byrfyfyr wedi mynd i mewn i'r perfformiad ond gydag un p'nawn o ymarferion yn unig llwyddwyd i ddod â phopeth at ei gilydd yn llwyddiannus. I helpu'r perfformiad ymunodd Patrick Rimes o'r Gerlan gynt a Sam Griffiths o Nefyn gyda ni i roi cyfeiliant gitâr a ffidil ac yn ôl tystiolaeth aelodau o'r gynulleidfa wedyn, profodd y cyflwyniad i fod yn un gwahanol a phleserus i wrando arno.

Fel y sylwyd yn y gorffennol mae'r côr hwn bellach wedi hen arfer â gwneud gwaith

arbrofol 'gwahanol' gydag amrywiaeth o artistiaid ac mae hynny'n arddangos blaengaredd y pwyllgor a'r aelodau sy'n barod i roi cynnig ar sialensiau newydd.



Sam Griffiths (Gitâr) a Patrick Rimes (Ffidil ac allweddellau) o'r grŵp gwerin 'Calan' yn Neuadd Fawr Castell Penrhyn yn dilyn y perfformiad o 'Perthyn'

Prysurdeb Nadoligaidd
Bydd aelodau'r côr yn brysur unwaith eto'n codi arian i wahanol elusennau ac achosion da'n lleol ac yn genedlaethol. Byddwn yn canu carolau mewn amryw o fannau gan gynnwys Tesco, Bangor, Ysbyty Gwynedd a Phlas Ogwen.

Os byddwch o gwmpas pan fydd y côr yn canu, cofiwch gyfrannu gan fod pob ceiniog yn mynd i'r elusennau. Ymhlith yr elusennau a fanteisiodd ar ymdrechion y côr yn y gorffennol mae Ambiwylans Awyr Cymru, Elusennau Cancr a Chlefyd Motor Niwron.

Cymeriadau'r Côr

Cyfres yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Cymeriad y mis hwn yw John R Jones, sydd o Rachub erbyn hyn.



Be ydi dy enw llawn?
John Rowland Jones
Oed? 84
Gwaith? Rheolwr banc wedi ymddeol.

Lle wyt ti'n byw? Rachub. Dyma'r wythfed tro i ni symud tŷ.
Un o le wyt ti'n wreiddiol?
Rhydymain, Dolgellau.
Pa dri pheth fuasai'n dy ddisgrifio orau? - Caredig, Doniol, Cyfeillgar.
Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr?
Yn agos i bedair blynedd.
Pa lais wyt ti? Tenor 2.

Pam wnest ti ymuno a chôr y Penrhyn? Rydw i wedi canu mewn corau o bob math ar hyd fy mywyd e.e. Cerdd Dant, Corau Cymysg, a Chwmni Opera. Cefais fy ngwâdd i ymuno â Chôr y Dyffryn, a chan fod nifer o'r tenoriaid a'r bas oedd yn canu hefo Côr y Dyffryn yn perthyn i Gôr y Penrhyn hefyd, r'oedd yn naturiol i minnau ymuno â'r côr meibion.

Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?
'Y Tangnefeddwyr' (Waldo/Eric Jones) oherwydd bod y geiriau a'r gerddoriaeth yn asio gyda'i gilydd cystal i roi delwedd weledol gref sy'n aros yn y cof.

Pwy yw dy hoff ganwr/gantores? - Rhys Meirion, neu Richard Rees, Pennal.

Beth yw dy farn di am ganu pop? - Dydw i ddim yn gwybod llawer am y canu pop Cymraeg diweddaraf er bod fy wŷrion, Jac a Rhys yn chwarae mewn band "heavy metal." Dwi'n hoffi cerddoriaeth pop neu jazz o'r pump a'r chwedegau gan i mi chwarae mewn band dawns yn ystod fy chwe blynedd gyda'r fyddin.

Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r côr? Mwynheais ymweld â Stavanger yn Norwy a chanu yn Eglwys Sant Johannes. Hoffais fynd ar gwch o gwmpas y ffordd.


Pa ddiddordebau sydd gen ti y tu allan i'r côr? Mi fûm yn hwylio, a chwarae golff a hoci ers talwm ond erbyn hyn mae fy niddordebau yn fwynach gan fy mod i'n hoffi garddio, darllen a chwarae'r piano. Mae fy wyrion yn cymryd tipyn o fy amser hefyd - tacsï Taid!

Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud? - Canu gyda'r corau eraill yn y 'Mil o Leisiau' yn Neuadd Albert yn Llundain neu ganu ym Moscow gyda Chôr y Fyddin Goch.

Y Dyddiadur toriadau (16)

Detholiad gan Derfel Roberts

(sef adroddiadau o bapurau Newyddion Cymraeg fel ‘Y Cloriannydd’ a rhai eitemau eraill wedi eu gludio ar dudalennau dyddiadur bychan 10cm x 6cm [4m x 2½m] yn dyddio o 1933, oedd yn eiddo i John Owen, Garnedd Wen, Llanfairpwll).



Dyddiadur Toriadau

Wrth ddynesu at ddiwedd y dyddiadur bach mae’r darlennydd yn rhyfeddu at swm y wybodaeth a gasglwyd oddi mewn i’w glorïau. Nid yn unig mae toriadau wedi eu cymryd allan o bapurau Cymraeg a Saesneg ond mae hefyd erthyglau a storïau cyfan ynddo. Mae John Owen wedi mynd ati’n fanwl i dorri allan erthyglau a hanesion am fywyd ardal Llanfairpwll fel bod darlun pur lawn o’r hyn oedd yn digwydd yn yr ardal yn ystod tridegau’r ganrif ddiwethaf, a chyn hynny hefyd, ar gael yn hwylus i’r ymchwilydd sydd â diddordeb yng ngorffennol y fro. Deuthum i wybod yn ddiweddar iawn mai John Owen oedd gohebydd lleol ‘Y Cloriannydd’ yn Llanfair PG.

Y tro hwn adroddir am un o’r cymeriadau hynny sy’ wedi diflannu o lawer o ardaloedd ond a oedd yn britho pentrefi cefn gwlad flynyddoedd yn ôl. Gadawyd y golygu i’r lleiafswm yn y stori hon eto gan fod yr arddull, yn ogystal â’r sillafu a dywediadau’r cyfnod, yn rhan o’i hapêl.

WMFFRA ROBAITS
(Gan J.O. arall)

Cymeriad Lleol Gwahanol
Ganwyd Wmffra Robaits mewn tafarndy heb fod nepell o’r gymdogaeth hon. Un o’i brif nodweddion oedd gwneud popeth yn groes i bawb arall, a dywedir ei fod felly o’i febyd. Wrth fynd a dyfod i’r hen ysgol oedd yn Tyddyn Ddeicyn yng nghwmni John Morgan, Cadnant, ac eraill clywsom y byddai’n cerdded y rhan fwyaf o’r ffordd a’i wyneb at yn ôl, a hynny heb un amcan ond bod yn wahanol i’w gyfeillion. Tueddai at fod yn gynnil a daeth yn fasnachwr adnabyddus yn y rhan hon o’r ynys. Un ffordd i hel arian ganddo oedd -

MAGU A PHESGI MOCH.
Wrth ddanfôn ei foch un tro bu digwyddiad a effeithiodd arno am y gweddill o’i fywyd. Yn unol â’r hen arferiad y pryd hynny byddai yn rhaid rhoi swllt yn ôl at ddiod am bob mochyn, a byddai pob hen gybydd yn gwneud ei orau i roi i lawr ei gorn gwddw gymaint a allai o ffrwyth yr heidden rhag bod yn golledwr. Teimlai Wmffra yn

bur hapus, rhoes ei draed ar draws ei gilydd a chydiodd mewn pibell glai oedd ar y bwrdd a’i thorri’n ddigon byr i fynd i’w boced, gan roi winc ar ei gyfeillion a dywedyd fod yn haws gwneud cetyn na phibell. Llanwodd y cetyn gyda baco oedd mewn pot ar y bwrdd; cymerodd bapur bychan o’i logell a thaniodd ei getyn. Dywedai wrth ei gyfeillion fod teulu’r tŷ yn cadw cwrw campus a bod söig yn ddiguro at besgi moch. Ond wrth siarad aeth ei dân allan a hwyliodd i’w ail-danio ac i’w ddychryn canfu ei fod wedi llosgi un o’r papurau pumpunt oedd wedi ei gael am y moch i danio’i getyn. Gwnaeth hyn ef yn elyn anghymodlon i’r bibell a’r tybaco am ei oes.

Wedi i amser maith fynd heibio ac i filoedd o bethau rhyfedd ddigwydd yn ei hanes daeth yr hen Wmffra i fyw i borthladd prydferth Pwllffanog ar lan y Fenai -

I GADW DWY FELIN
sef melin lechi a melin flawd ac yma rhoddai waith i liaws o wŷr a bechgyn ond byddai raid i bob gweithiwr fynd o dan arholiad cyn eu derbyn i’r gwaith. Y cwestiwn cyntaf yn cael ei ofyn oedd, “Oes gen ti biball?” a’r ail “Oes gen ti baco?” a’r trydydd “Oes gen ti fatsian?” Os atebid y tri chwestiwn yn gadarnhaol yr ordos nesaf fyddai, “Wel tania hi a rhed gartra y cenna budur.” Ond os digwyddai fod yr ymgeisydd yn methu ateb y tri chwestiwn yn gadarnhaol byddai cwestiwn arall yn cael ei ofyn. “Fedri di yr A,B,C yn ôl ac ymlaen.” Os methai’r ymgeisydd gyda’r prawf hwn, gwaedda’r hen Wmffra nerth ei ben, “Byth o’r fan yma, dos adra. Mae mwy yn dy draed di nag yn dy ben di.” O’r ochr arall os yn llwyddiannus gyda’r prawfion hyn, dywedai yn gyffredin, “Tyrd yma bore fory, fydd gwaith neb fawr lai arnat ti.” Teimlai’r hen frawd yn rhwym i roddi gwaith i bob un lwyddai i basio’r arholiad.

Yr oedd ganddo ffyrdd eraill-

I’W RHODDI AR EU PRAWF
Os mai saer oedd yr ymgeisydd

roedd ganddo bisyn o bren, bwyall finio a darn o haearn sgwâr (56lbs) ar ei gyfer, a dywedai wrth y dyn am wneud wejian i roi mewn coes gordd efo’r fwyall ar y 56lbs. Os cyffyrddai’r fwyall a’r haearn, gwaedda’i, “Paid y cenna brwnt a difetha fy arfau i; dos adra, rhoi min ar dy arfau y byddi di drwy’r dydd.”

Os byddai eisiau sacio dyn byddai ganddo gynllun at hynny hefyd. Anfonai ef i’r felin i gau tyllau llygod mawr ac os digwyddai i’r llygod fod wedi agor un o’r tyllau un o’r pethau cyntaf fyddai yn ringio yng nghlustiau’r gweithiwr fyddai, “Sac i ti genna gwael, mae llygodan yn gallach na chdi o’r hanner.”

Bu ganddo un gwas, Twm, oedd mor dduwiol ar rai adegau nes byddai ei wraig ei arswyd a phe digwyddai i Dwm farw ar un o’r adegau hynny yn ei hanes buasai yn mynd i’r nefoedd yn syth. Ond teg yw dweud nad oedd Twm yn perthyn i’r titotalars a’i fod yn credu bod gwydraid neu ddau yn gynhorthwy tuag at agor ei ddeall ac yn cynhyrchu ynddo deimladau hapus a nefolaidd.

Yr oedd y brawd hwn yn dyfod adref o’r Borth yng nghwmni un o’i gyfeillion mynwesol, a’r noson hon roedd deall y ddau gyfaill wedi eu hagog yn glir iawn. Ar y ffordd aeth yn ddadl rhyngddynt ynghylch y lloer; dywedai un mai’r haul oedd hi a thaerai’r llall mai’r lleuad oedd hi a phenderfynodd y ddau gyfaill ymladd â’i gilydd i gael gwybod pwy oedd yn iawn. Tynnodd y ddau eu cotiau a’u gwasgodau fel bydd dynion call yn arfer gwneud cyn dechrau ymladd, ond cyn taro na cholli’r un dafn o waed, dywedodd Twm wrth ei gyfaill, “Ryda ni’n rhy stowt i gwffio, rowni byth i fyny nes byddan ni wedi lladd ein gilydd.”

“O wel, o’r gorau ynte,” medda’i’r llall, a chwiliwyd am y dillad. Cafodd y ddau hyd i’w dillad a chyd-gerddasant i’r groesffordd lle y trodd pawb i’w ffordd ei hun yn ffrindiau.

I’w barhau...

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes

Cofiaf fel y byddwn, yn blentyn pur ifanc, yn cerddad i fyny Lôn Chwaraal a thrwy ardal Bryn-llwyd, i fynd i gwr' f'ewythr, Yncl Len, cyn iddo roi'i gelfi i lawr ar ddiwadd d'wrnod o lafur calad yng nghanol y llwch yn Sied Douglas.

Byddwn wrth fy modd yn ei wyllo wrth y bwrdd llifo yn trin y pileri mawr o lechfaen i'w troi'n glytia' trinadwy, parod i'w hollti. Yna, gyda'i gynion manollt wrth law, byddai'n eistedd ar ei flo cyn tin yn ei wal, sef ei lecyn o yn y sied, ryw bum troedfadd sgwâr, lle byddai'n hollti'r clytia' ar gyfar eu naddu'n grawia', a diwedd y broses honno fyddai troi pob crawan yn garrag – sef llechan doi (o wahanol faintioli, wrth gwrs). Dylwn egluro bod y siedia' wedi eu rhannu'n walia' gyda chrawia mawr ar eu traed yn gwahanu'r walia' oddi wrth ei gilydd. Gynt, wrth gwrs, rhyw gwt bychan tair ochrog oedd y wal, gyda chrawia'n ffurfio'i do ac er bod pob un o'r walia' yn yr awyr agorad, roedd wynab pob un ohonyn nhw'n gwbl agorad, heb ddim i warchod y chwarelwyr druan rhag tywydd oer a gerwin

gaeafa' Dyffryn Ogwen.

Cychwyn wedyn o'r gwaith, a minna'r hogyn bach ei sgwario hi yng nghanol chwarelwyr a chreigwyr tal a chryfion Chwarael y Penrhyn, gydag amball loeswr (labrwr) a jermon (prentis) yn eu plith.

I lawr heibio'r fynedfa lle mae'r Wifren Wib heddiw, ac yna bwrw cip ar y llwybr a arweiniai drwy'r coed at Ysbyty'r Chwaraal a godwyd ym 1842 ar gyfer y rhai a gâi eu hanafu yn y chwaraal – gyda llaw, codwyd yr ysbyty cyntaf yn Stryd y Mynydd, Bangor, ym 1820.

Wedi mynd rownd y tro ar ôl croesi llwybr y Lôn Las sydd yno heddiw, byddem yn mynd heibio'r ddau dŷ a elwid yn Mount Pleasant (y ddau wedi eu chwalu tua diwadd y '60au neu ddechra'r '70au). Yn un o'r tai hynny y magwyd David Ffrangcon-Davies (1855-1918), bariton byd-enwog yn ei ddydd a thad i ddwy ferch. Ni wn fawr ddim am Marjorie ac eithrio ei bod yn actores ac wedi ei geni yn Llundain. Roedd y ferch arall, Gwen (1891-1882) – y Fonesig Gwen

yn ddiweddarach – yn wynab cyfarwydd iawn ym myd actio ac wedi dechra'i gyrfa ar y llwyfan, gan ymddangos gydag enwogion fel John Gielgud ac Ivor Novello. Yna, bu'n actio mewn ffilmia' ac mewn dramâu ar y teledu ac roedd yn gant oed pan ymddangosodd yn *The Master Blackmailer*, drama deledu am Sherlock Holmes. Bûm yn ffodus iawn i gael gafa'l ar gyfrol (276 tudalen) o waith David Ffrangcon-Davies, sef *Singing of the Future*, ac yna, ymhen rhai blynyddoedd wedyn, llwyddais i brynu cyfrol (192 tud.) a ysgrifennwyd gan ei ferch, Marjorie, *David Ffrangcon-Davies, His Life and Book*.

Cofiaf Mr a Mrs Williams a'u plant, Beryl, Brenda, a Cyril, yn byw ym Mount Pleasant (yn y tŷ 'gosa' at Bont y Tŵr). Gwaetha'r modd, bu farw Brenda pan nad oedd ond ryw ugain oed ond bydd llaweroedd o bobl yn Nyffryn Ogwen yn cofio Cyril yn yrrwr cyfeillgar bysys y Purple Motors am flynyddoedd lawer.

Awn i lawr Lôn Chwaraal yn ein rhifyn nesa' a dilyn yr afon at Bont-y-Tŵr.

YSGOL PEN-Y-BRYN

Gala Nofio
Bu criw o'r ysgol yn cystadlu'n frwd yng ngala nofio'r Urdd yn ddiweddar, ym mhwl nofio Bangor. Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran, a diolch am gario enw da Ysgol Pen-y-bryn gyda chi!

Eisteddfod
Bu cystadlu brwd unwaith eto gan ddisgyblion Pen-y-bryn yn yr eisteddfod leol! Llongyfarchiadau i bawb ar eu llwyddiannau o'r parti unsain i gystadlaethau celf a chrefft. Gwych yn wir!!



Rhai o'r disgyblion fu'n cystadlu

Owain Glyndwr
Yn ddiweddar, cafodd blwyddyn 5 a 6 gyflwyniad Mewn Cymeriad gwerth chweil am Owain Glyndwr. Daeth yr actor Gwion Aled a'r hanes yn fyw i'r plant a chafodd lawer ohonyn nhw gymryd rhan ac actio gwahanol bobl ym mywyd Owain Glyndwr. Diolch o galon Gwion am ein helpu i ddysgu mwy am y cyfnod ac am y dyn pwysig hwn.

Ymdeoliad
Mae newid mawr ar y gweill i Ysgol Pen-y-bryn; mae Mrs Ceren Lloyd, y pennaeth, yn ymddeol



ddiwedd y tymor hwn ar ôl 23 o flynyddoedd yn yr ysgol.

Mae gan gannoedd o blant y dyffryn atgofion melys iawn o'u hamser ym Mhen-y-bryn ac mae'r diolch am hynny i Mrs Lloyd, o wahanol gystadlaethau chwaraeon i Eisteddfodau'r Urdd

a Dyffryn Ogwen i ymweliadau diddiweddd, a llawer mwy. Bydd colled mawr ar ei hôl.

Hoffai holl staff a phlant Ysgol Pen-y-bryn ddiolch o waelod calon i Mrs Lloyd am bopeth ac rydym oll yn dymuno'n dda iawn iddi hi ar ei hymddeoliad.



Bydd Mrs Lloyd yn ymddeol ar ddiwedd y tymor

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?



2020
Ionawr
18 Cefnfaes – Ysgol Pendalar er cof am Vernon Owen.

Mawrth
07 Cefnfaes - Plaid Cymru.
21 Cefnfaes – Eglwys Crist Glanogwen.
28 Cefnfaes – Eglwys St. Cedol, Pentir.

Ebrill
04 Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
18 Cefnfaes – Cymdeithas Jerusalem.
25 Cefnfaes – Plaid Lafur.

Mai
02 Cefnfaes – NSPCC
16 Cefnfaes – Cymorth Cristnogol.

Mehefin
06 Cefnfaes – Eglwys Crist Glanogwen.
20 Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
27 Cefnfaes – Eglwys St. Cedol, Pentir.
12 Cefnfaes – NSPCC.
19 Cefnfaes – Eglwys Crist Glanogwen.
26 Cefnfaes – Plaid Cymru.

Hydref
17 Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
24 Cefnfaes – Eglwys St. Cedol, Pentir.

Pwysig - Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

Marchnad Ogwen

Ionawr 11eg
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

Chwefror 8fed
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

Mawrth 14eg
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm
Bwydydd, Crefftau, Lleol

www.marchnadogwen.co.uk
Facebook

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI
YSGOL
PENDALAR
(ER COF AM VERNON OWEN)
SADWRN, 18 IONAWR
10.00 – 12.00

Cymdeithas Jerusalem

yn Festri Jerusalem
Nos Iau, 9 Ionawr
am 7 o'r gloch gyda
HOGIA'R BONC

CANOLFAN CEFNFAES

GYRFA CHWIST
RHAGFYR 10 a 17
IONAWR 14 a 28
am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb



Eglwys St. Tegai, Llandygai
Gwasanaeth Traddodiadol

NAW LLITH A CHAROL

(Dwyieithog)
Nos Sul, 22 Rhagfyr
am 5.00yh
Hefyd
CYMUN CYNTAF YR WYL
24 Rhagfyr (Noswyl Nadolig)
am 11.00 yr hwyr

I hysbysebu yn
Llais Ogwan,
Neville Hughes
600853
(nev_hughes@
btinternet.com)



Cyfarchion Nadolig

Ni fydd Edwina a James,
42 Abercaseg, Bethesda
yn anfon cardiau Nadolig eleni,
ond maent yn dymuno
Nadolig Llawn a Blwyddyn
Newydd Dda i'w cymdogion
a'u ffrindiau i gyd.

CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

Nos Lun, 13 Ionawr
am 7.00yh
yn Festri Capel Jerusalem
Howard Huws
“Saint Dyffryn Ogwen”
£1.50 wrth y drws neu
am ddim i aelodau



Neuadd Ogwen
Dydd Gwener
27 Rhagfyr am 7.30
Gig Nadolig CELT,
GWILYM + mwy

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym
Marchnad Ogwen
11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi
Fitzpatrick's
Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau
siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131

I hysbysebu yn
Llais Ogwan, Neville Hughes
(nev_hughes@btinternet.com)

CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550
karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyio ar gyfer
partïon o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)
Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd
Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)
Rydym yn croesawu partïon
o bob math – dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

CHRIS GRIFFITHS CYF
Trwsio ffenestri upvc, drysau,
cloeau, bachau, twll llythyrau ac
unedau gwydr wedi chwythu



18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

ATAL AMDDIFFYN YMATEB
PREVENTING PROTECTING RESPONDING



**DWY IAITH, UN
GWASANAETH**
ANELU TUA'R COPA

Siarad Cymraeg?
Dau gyfle gwych i weithio gyda ni
Prentisiaethau Diffoddwyr Tân
Prentisiaethau Arweinwyr y Dyfodol

Rydym ni'n awyddus i benodi mwy o siaradwyr Cymraeg i wneud yn siŵr ein bod ni'n darparu gwasanaeth o'r radd flaenaf i bob cymuned
Bydd y porth cofrestru ar agor yn fuan – ewch i www.gwastan-gogcymru.org.uk i gael mwy o wybodaeth

Cynnig Gofal Plant Cymru

Addysg gynnar a gofal

30 awr yr wythnos o addysg
gynnar a gofal plant wedi'u
hariannu gan y Llywodraeth
i rieni cymwys sy'n gweithio
ac sydd â phlant tair a
phedair oed, a hynny am hyd
at 48 wythnos y flwyddyn.

Am fwy o fanylion
cysylltwch gyda
Uned Gofal Plant
Gwynedd a Môn



Ffôn: 01248 352436 E-bost: gofalplant30awr@gwynedd.llyw.cymru

Mynydd Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr, Mynydd Llandygái ☎ 600744

Clwb Ieuenctid
Cynhaliwyd Noson Bingo i'r Clwb at y Parti Nadolig. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi. Hefyd, diolch Lynda, Dana a Corina am eu gwaith caled. Nadolig Llawen!

Pantomeim
Diolch i Karen am drefnu'r Pantomeim, ac i bawb a ddaeth i helpu. Cafwyd noson wych! Y plant a'r oedolion wedi mwynhau'r noson ardderchog yn y neuadd.

Diolch
Dymuna teulu'r ddiweddar Mair Williams, 25 Arafon, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu colled, ac am y rhoddion hael a gafwyd i Blas Ogwan er cof amdani. Diolch i'r cymdogaion a'r gofawyr cartref am eu gofal ohoni, ac i'r Parchg. Ddr. Huw John Hughes a Stephen Jones am eu

gwasanaeth tyner a thrylwyr yn y cartref ac ar lan y bedd. Hefyd, diolch i Karen a staff Caffi Coed y Brenin am baratoi lluniaeth. Diolch yn fawr!

Eglwys St. Ann a St. Mair
22 Rhagfyr: 9.30yb - Dim gwasanaeth Boreol
5yh - Carolau cynulleidfaol, Neuadd Goffa, Mynydd Llandygai.
Noswyl y Nadolig: 11.30yh - Cymun Bendigaid
29 Rhagfyr: 9.30yb - Cymun Bendigaid - Eglwys St. Cedol, Pentir (yr unig wasanaeth yn y Plwyf y Sul hwn).

2020
5 Ionawr: 9.30yb - Cymun Bendigaid
12 Ionawr: 9.30yb - Gwasanaeth Boreol

Estynnwn groeso cynnes i bawb ymuno â ni yn ein gwasanaethau dros yr Wyl. Cofiw'n am bawb sy'n sâl ar hyn o bryd ac anfonwn ein cofon cywiraf atoch i gyd.

Diolch i bawb a'n cefnogodd gydol y flwyddyn a dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Mins peis Baklava

Cynhwysion

2 becyn x 270g o grwst ffilo.

1 jar o mincemeat.

100g o pistashos wedi eu malu.

100g o gnau almon wedi eu malu.

Croen 1 oren.

150g o fenyn.

Bydd angen tun 20 x 30cm.





Ar gyfer gwneud surop:
150g siwgr.
2 lwy fawr o Grand Marnier neu frandi.

- Dull**
- Toddwch y meny'n a brwsio'r tun (a'r ochrau) i gyd efo rhywfaint o'r meny'n.
 - Torrwch y ffilo i faint y tun, a defnyddiwch 1 pecyn gan frwsio pob un efo'r meny'n.
 - (Rhowch liain tamp dros y ffilo ar ôl eu tynnu o'r pecyn, rhag iddyn nhw sychu.)
 - Cymysgwch y mincemeat, y pistasho, y cnau almon a'r croen afal, a lledu'r cwbl ar y ffilo.
 - Rhowch yr ail ffilo ar y mincemeat, ac fel o'r blaen, brwsio pob un efo'r gweddill o'r meny'n.
 - Rhowch ddigon o fenyn dros yr haenen olaf o ffilo.
 - Defnyddiwch gyllell finig a sgoriwch yn ddyfn o gornel i gornel fel bod patrwm diamwnt ar y cwbl. (Gofalwch dorri'n ddyfn i'r gwaेलod).
 - Rhowch o yn y popty ar wres 160gradd/140gradd ffan, tan fydd y baklava yn euraidd.

Y Surop: Cynheswch y siwgr a 75ml o ddŵr ar wres isel tan fydd y siwgr wedi toddi'n llwyr. Dal i'w fudferwi tan fydd yn ddigon tew i orchuddio cefn llwy. Ychwanegwch y brandi neu'r Grand Marnier, a phan fydd y baklava yn barod, tynnwch o o'r popty a brwsio'r gwbl efo'r surop (neu ei dollti). Codwch wres y popty i 180gradd/160gradd ffan. Rhowch o yn ôl yn y popty am 5 munud. Gadewch y cwbl i oeri yn y tun. Wedyn torrwch ar hyd y llinellau. Mi wnaiff gadw am 1 wythnos.

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Yn ystod mis Hydref cyhoeddodd yr ymgeisydd seneddol (Mary Gwen) nad oedd hi'n dymuno sefyll, oherwydd cyflwr ei iechyd a'i dymuniad i astudio'r gyfraith. Felly, ar ddiwedd mis Hydref cynhaliwyd cyfarfod dewis ymgeisydd newydd a Steffie Sioned o Fangor oedd yn fuddugol. Y mae Stephanie yn 27 oed a chafodd ei geni yn Rhiwlas, ei magu yn Maesgeirchen, ei haddysg uwchradd yn Ysgol Dyffryn Ogwen a gradd dosbarth cyntaf yn y gyfraith ym Mhrifysgol Bangor.

Y mae'n llawn egni a brwdfrydedd, ac yn byw yng Nghoed Mawr (Bangor) efo'i phartner Eirian a'u plentyn Noa. Canslwyd y cyfarfod


cangen a oedd i fod yn mis Tachwedd i ganolbwyntio ar yr ymgyrch etholiadol, gyda chyfarfod trefnu yng Nghaernarfon ar 8 Tachwedd, sesiwn lansio'r ymgyrch ar y 12fed ym Mangor ac ymgyrchu brwd am fis wedyn.

Tua diwedd y mis cyf-etholwyd Michael Williams, Lôn Groes, Rachub i Gyngor Bethesda i gynrychioli Ward Rachub yn lle Susan Davies o Hen Barc. Y mae Michael wedi bod yn weithgar yn y ward fel aelod o bwyllgor Canolfan Rachub, cyd-drefnydd Ti a Fi Rachub, a chyd-drefnydd Bwrlwm Haf - yn ogystal â chodi arian at achosion da. Y mae o hefyd yn aelod brwd o Gôr Meibion y Penrhyn. Y ddau aelod arall

o Gyngor Bethesda dros ward Rachub yw Pearl Evans a Godfrey Northam, ac y mae'r tri'n aelodau o'r Plaid Lafur.

Ar ddiwedd y mis cynhaliwyd y bore coffi Nadoligaidd yng Nghanolfan Cefnfaes efo Siôn Corn, gyda'r elw parchus yn mynd at gostau etholiad San Steffan. Wedi cyflwyniad gan Betty Williams (cyn aelod seneddol dros etholaeth Conwy), cafwyd araith gan Steffie Sioned ac araith arall gan Eluned Morgan (Gweinidog Cymru dros Y Gymraeg). Braf oedd gweld nifer sylweddol o bleidleiswyr Plaid Cymru yno hefyd i ddangos yr ysbryd cydweithredol sydd yn y dyffryn.

Bydd cyfarfod nesaf y gangen ar yr ail nos Fercher yn mis Ionawr am 7:30y.h. yng Nghanolfan Cefnfaes, Bethesda, gyda phwnc trafod yn yr ail hanner.



YSGOL BODFEURIG

Wythnos gwrth-fwlio

Fel rhan o wythnos gwrth-fwlio aeth y Cyngor Ysgol a Cyngor Lles, Iechyd a Ffitrwydd ati i drefnu gwasanaeth i blant yr ysgol. Roedd llawer o negeseuon pwysig i'r plant gofio yn ystod y gwasanaeth yn cynnwys sut gallen ni atal bwllo rhag ddigwydd gan gofio fod pawb yn wahanol ond mae pawb yn gyfartal. Diolch iddynt am y cyflwyniad. Yn ogystal â'r cyflwyniad, penderfynon nhw ofyn i'w cyd-ddisgyblion wisgo sanau gwahanol i'r ysgol Dydd Mawrth, 12 Tachwedd i ddangos fod pawb yn wahanol.

Banc bwyd y Gadeirlan

Aeth y Cyngor Ysgol ati eto eleni i gasglu bwyd i'r banc bwyd yn y Gadeirlan gan ofyn i'r rhieni am gyfraniad o fwydydd. Roedd llond trol o fwydydd wedi cael eu casglu. Diolch i bawb am eich cyfraniad a chefnogaeth unwaith eto.



Sialens Beicio Rickshaw

Roedd cyffro mawr yn yr ysgol fore Gwener, 8 Tachwedd gan fod y cyflwynydd teledu, Matt Baker a'i dîm yn pasio'r ysgol gyda'r 'Rickshaw Challenge.' Sialens beicio oedd hwn lle roedd tîm o chwe phobl a Matt Baker yn seiclo o Gaergybi i Lundain gan gasglu arian ar gyfer Plant Mewn Angen. Roedd y plant wedi bod yn brysur yn creu posteri er mwyn eu cefnogi wrthynt basio. Braint oedd gweld gwaith caled Matt a'r plant wrth iddynt feicio heibio'r ysgol.

Plant Mewn Angen

Eleni penderfynodd y Cyngor Ysgol a Chyngor Lles, Iechyd a Ffitrwydd cydweithio i godi arian i'r elusen Plant Mewn Angen a phenderfynwyd trefnu sialens beicio noddedig. Dydd Gwener, 15 Tachwedd daeth y plant a'u beics, sgwter a helmed i'r ysgol i gymryd rhan yn sialens beicio ar iard yr ysgol. Cafodd bob blwyddyn eu her am faint oedd rhaid iddynt fynd o gwmpas yr iard. Un o flaenoriaethau'r Cyngor Lles, Iechyd a Ffitrwydd y fwyddyn yma yw gwella ffitrwydd yr ysgol felly roedd hyn yn gyfle gwych i wneud hyn yn ogystal â chasglu arian ar gyfer elusen gwerth chweil. Casglwyd swm

anhygoel o £962.50 i'r elusen arbennig. Hoffai'r ysgol ddiolch i'r cynghorau am drefnu diwrnod gwerth chweil, diolch i'r plant am eu hymdrech a diolch i'r rhieni am eu cefnogaeth.

Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Roedd y plant wedi bod yn brysur yn paratoi gwaith ar eu thema 'Rhyfeddodau'r Byd' ar gyfer cystadleuaeth celf a chreffft Eisteddfod Dyffryn Ogwen gyda chymaint o waith gwych yn cystadlu. Roedd nifer y plant yn fuddugol gyda'i gwaith yn ystod yr eisteddfod. Da iawn pawb!



Y plant gyda'u gwaith celf

Gala Nofio'r Urdd

Dydd Sadwrn, 16 Tachwedd roedd plant o flwyddyn 3 i 6 yn cystadlu yng ngala nofio'r Urdd ym mhwl nofio Bangor. Roedd pawb wedi ymdrechu yn wych yn ystod y gystadleuaeth gyda rhai yn mynd drwodd i'r ffeinal yn ei rasys. Cafodd plant y tîm cyfnewid blwyddyn 3 a 4 trydydd yn y ras cyfnewid a Reuben yn dod yn bedwerydd ar ei gefn yn y ffeinal. Mae pawb yn yr ysgol yn falch iawn o bob un roedd wedi cystadlu. Da iawn chi.

Cyngor Eco

Daeth Ffion Haf o Gyngor Gwynedd i ymweld a'r ysgol i siarad gyda Izzy a'r Cyngor Eco i drafod lleihau plastig un-tro yn yr ysgol ac yn y gymuned. Mae Ffion yn awyddus i weithio gyda'r ysgol ar ôl derbyn llythyr gan Izzy yn lleisio ei barn am effaith mae plastig yn ei



Ffion Haf o Gyngor Gwynedd gyda'r Cyngor Eco

gael ar y byd o'n cwmpas. Mae'r Cyngor Ysgol yn edrych ymlaen i weithio gyda Ffion ar ôl y Nadolig.

Ffair Nadolig

Roedd hi'n brynhawn prysur yn yr ysgol ar 28 Tachwedd gan fod ffair Nadolig yr ysgol ymlaen, gyda'r neuadd yn orlawn a phawb yn mwynhau wrth fynd o amgylch y stondinau. Casglwyd dros £450 i'r ysgol. Diolch am eich cefnogaeth.

Cyngor Ysgol

Eleni mae'r Cyngor Ysgol wedi penderfynu cael anifail anwes i'r ysgol ar ôl gwrandao ar lais eu cyd-ddisgyblion. Er mwyn gwneud hyn roedd rhaid i'r plant gasglu arian felly aethon nhw ati i goginio cacennau i werthu yn y ffair Nadolig yn ogystal â chreu stondin tombola. Roedd yn brynhawn llwyddiannus yn y ffair a chasglwyd £130 er mwyn cael prynu'r anifail anwes ar ôl y Nadolig.



Carneddi

Ar 13 Tachwedd bu farw'r Parchedig John Owen o'r Wernos, Cilfodan yn 91 mlwydd oed. Bu Mr Owen yn weinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn y Carneddi, y Gerlan a Jeriwsalem, Bethesda a bu'n bugeilio yn yr ardal hon ers y chwedegau.

Brodor o Lansannan yn Sir Ddinbych oedd Mr Owen ac roedd parch mawr iddo fel gŵr caredig a siriol oedd bob amser â chyfarchiad a gwên i bawb. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn nghapel Jeriwsalem ar 25 Tachwedd dan arweiniad y Parch Harri Parri a gweinidogion eraill. Talwyd y deyrnged iddo gan y Prifardd Ieuan Wyn ac roedd y gynulleidfa niferus a ddaeth i dalu'r gymwynas olaf ag ef yn tystio i'w boblogrwydd fel Cristion cywir a Chymro twymgalon.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Elina Owen, ei weddw, ac â'r plant, Mererid, Einir a Garmon yn ogystal â'r wyrion a'r wyresau ac â'r holl deulu yn eu profedigaeth. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Coetmor.

YSGOL LLANLLECHID

Gwellhad Buan

Braf yw cael nodi fod Ms Lliwen bellach gartref o'r ysbyty, ar ôl arhosiad byr iawn yno. Cafwyd triniaeth faith, a braf yw cael dweud ei bod yn gwella ac mewn hwyliau da, fel arfer! Daliwch ati i wella Ms Lliwen! Mae pawb yn anfon eu cofion atoch.

Gwasanaeth Nadolig Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Braint oedd cael y cyfle i rai o'n disgyblion hŷn gymryd rhan yng Nghapel Carmel ar ddydd Sul, 1 Rhagfyr, mewn gwasanaeth Nadolig arbennig. Cafwyd prynhawn i'w gofio, a braf oedd cymryd rhan gyda thraws-doriad o bobl o'r ardal. Diolch am y croeso cynnes i Gapel Carmel, a braf, unwaith yn rhagor, oedd gweld yr holl addurniadau Nadoligaidd chwaethus gan ddisgyblion yr Ysgol Sul a'r Clwb Dwylo Pysur, yn harddu'r capel. Diolch i Mrs Delyth Humphreys, Ms Gwenlli Haf a Mrs Helen Roberts am eu cymorth.

Y Ddawns Flodau

"Toedden nhw'n ddigon o sioe!" meddai pawb, wrth edmygu ein dawnswyr, yn seremoni gadeirio Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Dawnsiodd pob un yn ysgafn droed, gan gofio'r symudiadau i'r dim. A braf oedd gweld



rhai o'n cyn-ddisgyblion yn serennu yn y seremoni hefyd! Llongyfarchiadau i Beca Nia ar ennill gwobr Medal yr Ifanc, a braf gweld Gwydion Rhys yn canu'r piano,- fel dewin! Diolch i Mrs Wilson am hyfforddi'r disgyblion i ddawnsio, a diolch arbennig i Nel, Addison, Mali, Nanw, Anna, Catrin, Mili, Awel, Lili, Mared Llew a Mared Elain am fod yn ddigon o sioe!

Diwrnod Plant Mewn Angen

Cafwyd diwrnod o ganu a mwynhau, a chodwyd £268.01 tuag at yr elusen hon. Diolch i bawb.

Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Gyda llawenydd a balchder y clodforwn a llongyfarchwn ddisgyblion Ysgol Llanllechid ar yr holl lwyddiannau yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Roedd hi'n fraint anhygoel cael bod yn bresennol, a gweld ein disgyblion yn dod i'r brig ym mhob maes. Diolch o galon i'r holl blant am eu hymroddiad a'u hymddygiad boneddigaidd drwy gydol y dydd, ac i'r rhieni am eu cefnogaeth. Diolch arbennig i staff Ysgol Llanllechid i gyd, am gydweithredu fel tîm llwyddiannus iawn, er lles y disgyblion. Yn ôl ein harfer, diolchwn i Mrs Helen Williams am ei chymorth hithau, ac i Mrs Gres Pritchard am ddod atom i gyfeilio. Mae llawer un yn dweud mai fel 'Eisteddfod Calon Lan' y byddant yn cofio'r Eisteddfod hon, gan fod y Côr Plant Bach wedi eu gwfreiddio! Wrth gwrs, nawn ni ddim anghofio buddugoliaeth y Côr Hŷn chwaith! Llongyfarchiadau hefyd i'r enillwyr Celf a Chrefft a'r tasgau ysgrifenedig. Diwrnod i'w gofio!

Dawnsio Disgo

Llongyfarchiadau i'r criwiau Dawnsio Disgo ar eu llwyddiant hwythau yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Diolch o galon i Ms Kathryn am eu hyfforddi. Roeddem hefyd yn ffodus



Ffair Nadolig

Cafwyd Ffair a hanner, a chiwiau hir i weld Sion Corn! Noson fyrlymus a phawb yn canmol yr arlwy o'r gegin, sef twrci a stwffin cartref Anti Gillian! Diolch i'r holl stondinwyr ac i bawb a ddaeth ynghyd i gefnogi. A diolch arbennig i'n pwyllgor prysur o dan gadeiryddiaeth Ceri Evans am yr holl waith ymlaen llaw, ac ar y noson! Llwyddiant ysgubol! Diolch i Popty Cae Groes am y mins peis blasus ac i siop Londis am y nwyddau. Diolch o galon i bawb!

o gael cymorth gan Mia, merch Ms Kathryn i'n rhoi ar ben ffordd, a hefyd Ms Angharad Shone. Llongyfarchiadau gwresog!

Stwnsh Sadwrn

Ymddangosodd rai o'n disgyblion ar Stwnsh Sadwrn ar S4C yn ddiweddar - pawb wedi cael modd i fyw!

Parcio dros y Nadolig

Cofiwch fod parcio am ddim ym meysydd parcio cyhoeddus Cyngor Gwynedd yn y cyfnod sy'n arwain at y Nadolig.

Mae'n rhan o ymdrechion y Cyngor i annog trigolion i wneud eu siopa Nadolig yn lleol a chefnogi siopau Gwynedd.

Mae'r ymgyrch yn ei le ers dydd Sadwrn, 14 Rhagfyr a bydd yn parhau tan 27 Rhagfyr. Does dim esgus dros beidio siopa'n lleol - felly gnewch y mwyaf o'r cynnig parcio am ddim.

DIFYRION

Ffeithiau difyr o'r we ynghylch y byd a'i bethau gyda D.R.

Yr enw lle hiraf yn y byd:

Mae rhai'n hoffi meddwl mai Llanfair Pwll Gwyngyll ydi'r enw hiraf yn y byd ond mae enw'r lle yma yn Seland Newydd yn hirach o gryn dipyn gyda 85 o lythrennau ynddo.



Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

Swyddfeydd eraill:

Llangefnï (01248) 723106	Porthaethwy (01248) 719517	Bentlech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616	Pwllheli (01758) 703000	

Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda
☎ 600853
Barbara Jones,
1 Dol Helyg, Talybont ☎ 353500

Eglwys St Cross
Gwasanaethau'r Sul:
Mis Rhagfyr: *Nadolig Llawen bawb!*
22ain - 11am: Gwasanaeth Cymun
25ain, Dydd Nadolig - 10.30am: Cymun y Nadolig
29ain - 9.30am: Gwasanaeth Plwyf yn Eglwys St Cedol, Pentir (*DIM* gwasanaeth yn St Cross y bore hwnnw)

Mis Ionawr 2020: *Blwyddyn Newydd Dda!*

5ed, 12fed, 19eg, 26ain - pob gwasanaeth am 11am.

Gweithgareddau eraill:
Bore Coffi: Diolch i bawb wnaeth cefnogi ein Bore Coffi Nadolig. Byddwn yn cael seibiant bach ym mis Ionawr, felly fydd 'na DDIM Bore Coffi ar fore dydd Mawrth, 7 Ionawr. Bydd yr un nesaf ar ddydd Mawrth 4 Chwefror. Diolch am eich cefnogaeth gydol y flwyddyn.

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i Sandra, 13 Dolhelyg, a ddathlodd benblwydd arbennig ym mis Tachwedd. 'Dwn i ddim pwy fyddai'n credu 'bod hi'n hanner cant!
Brysia wella, Sandra, yn dilyn dy driniaeth yn Ysbyty Gwynedd ar ddiwedd y mis.

Cymdoges arall fu'n derbyn triniaeth, yn yr un ysbyty yn ddiweddar, yw Siân, 32 Cae Gwigin. Mae Siân yn cadw llygad ar bawb o'i chwmpas, a gwyddom y caiff hithau ofal ardderchog gan Wayne, Josh, Brandon a Tia, nes y bydd wedi gwella'n iawn.

Eisteddfod Dyffryn Ogwen
Cafwyd chwip o Eisteddfod yn Neuadd Ogwen ar nos Wener, 15 Tachwedd, ond y wefr fwyaf, yn sicr, i bobl Talybont oedd gweld Beca Nia, 36 Bro Emrys, un o Brif-ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen, ar y llwyfan yn derbyn Medal yr Ifainc. Cafodd ei gwaith ganmoliaeth uchel iawn gan feirniad y gystadleuaeth. Mae talent anhygoel yn y Dyffryn, fel yr oedd yr holl gantorion, adroddwyr, offerynwyr a chorau yn profi. Braint oedd cael gwrando arnynt!

Talybont yn y Pumdegau!

Daeth llun diddorol iawn i law ychydig yn ôl; pump o enethod glandeg Talybont, i gyd (ar y pryd) yn dwyn y cyfenw Hughes, yn eistedd ar ben tractor oedd yn eiddo i deulu'r diweddar Megan a Beti Ellis, Fferm Tŷ Uchaf.

Daeth llun diddorol iawn i law ychydig yn ôl; pump o enethod glandeg Talybont, i gyd (ar y pryd) yn dwyn y cyfenw Hughes, yn eistedd ar ben tractor oedd yn eiddo i deulu'r diweddar Megan a Beti Ellis, Fferm Tŷ Uchaf.

arbennig eleni!

Tybed a fyddai modd gopïo rhai o'r hen luniau, a'u harddangos mewn man cyfleus, er mwyn i blant a phobl ifainc yr ardal weld sut le oedd Talybont ers talwm?

A chyfle, wrth gwrs, i'r bobl hŷn hel atgofion am gyfnod hapus iawn yn eu hanes!



O'r chwith i'r dde, Margaret Fearnley, Alfys Williams, Iris Harper, Helen, chwaer Emyr Wyn a Glenys Allen, chwaer Margaret.

Capel Bethlehem
Oedfaon
22 Rhagfyr: Gweinidog.
29 Rhagfyr: Parchg. Iwan Llewelyn Jones, Porthmadog.
5 Ionawr: Oedfa
12 Ionawr: Gweinidog.
19 Ionawr: Mr Dafydd Iwan.
26 Ionawr: Gweinidog.

Oedfaon am 2 o'r gloch oni nodir yn wahanol.
Croeso cynnes i bawb.

Colli Aelod
Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Mrs Rose Thomas ddechrau mis Tachwedd. Cynhaliwyd ei hangladd yn y capel ac ym mynwent Maes

y Groes, ar ddydd Llun, 9 Tachwedd, gyda'i gweinidog, y Parchedig John Pritchard yn gwasanaethu. Cafwyd teyrnged loyw iddi gan ei chwaer, y Parchedig Cath Williams. Mrs Barbara Jones oedd wrth yr organ. Cydymdeimlwn, fel eglwys, yn ddwys iawn â Mr Idris Thomas a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Babi newydd
Llongyfarchiadau i Wil a Gwyneth, Fferm Cochwillan, ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd Buddug, ail blentyn eu merch Hafwen a'i gŵr, Gethin, Ffordd Bangor, Bethesda, ar 25 Tachwedd. Bydd Enfys, ei

chwaer fawr, yn dair oed ym mis Ionawr. Mae wrth ei bodd yn helpu mam efo'r babi newydd, 'dw i'n siŵr, ac yn edrych ymlaen at ddangos ŵyn bach Taid iddi, pan gyrhaeddant!

Bwrlwm Bethlehem
Yn ein cyfarfod olaf o'r tymor, diolchwyd i Rita ac Enid am eu holl waith yn gofalu am ein Clwb Cynilo dros gyfnod o 10 mlynedd a mwy. Maent bellach wedi ymddeol o'u cyfrifoldebau ariannol. Dymunwyd yn dda i Iris ar ddathlu penblwydd arbennig ym mis Rhagfyr, ac fe ddathlwyd yr achlysur gyda chacen penblwydd - ond 'doedd dim digon o le arni i'r holl

ganhwyllau!!!). Bydd y Bwrlwm yn ail-ddechrau am 2.15 ar bnawn dydd Iau, 9 Ionawr.

Ffair Nadolig
Cynhaliwyd ein Ffair Nadolig flynyddol ar nos Fercher, 4 Rhagfyr, ac fe wnaed elw o £600. Diolch i bawb am eu cefnogaeth hael eto eleni!

Oedfa Nadolig
Byddwn wedi cynnal ein Gwasanaeth Nadolig ar y Sul cyn i'r Llais ymddangos. Mae plant yr Ysgol Sul wedi bod yn ymarfer yn galed tuag at yr achlysur, a gobeithiwn gynnwys yr hanes yn y rhifyn nesaf o Lais Ogwan.

Teulu'r diweddar Rose Thomas yn mynegi diolch:
Dymuna Idris Thomas, 16 Dolhelyg, ynghŷd ag Arfon, Henry a'r teulu, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a phob caredigrwydd yn eu profedigaeth o golli'r annwyl Rose.

Diolch arbennig i Barbara am ei chyfeillgarwch ar hyd y blynyddoedd; i'r Gofalwyr Cartref fu mor wych cyn i Rose orfod mynd i ofal parhaol; i aelodau Capel Bethlehem, cymdogion a chyfeillion am eu caredigrwydd, ac i'r Gweinidog, y Parchedig John Pritchard, am ei ymweliadau a'i wasanaeth ar ddydd yr angladd. Derbyniwyd £700 er cof am Rose tuag at waith Cartref Nyrsio Ceris Newydd.

Tair Medal i Poppy
Bu Poppy Williams, The Old Barn, Lôn Aber, yn cystadlu ar ran Clwb Bangor yn y Pencampwriaethau Nofio a gynhaliwyd yn Llandudno yn ystod yr hydref. Enillodd Poppy dair Medal Arian: un am nofio ar ei chefn; un arall am nofio yn null broga, a'r drydedd am ddull rhydd. Dim ond dau blentyn wyth oed oedd yn y tîm i gyd. Da iawn ti, Poppy. Dalia ati!



Nadolig Llawn a
Blwyddyn Newydd
Dda i bawb!

Nyth y Gân

Cudyll Coch
Un dedwydd uwch diadell yn y llun
A'r lle mor anghysbell,
Mor ysgafn mae ar asgell
A'i gwmp hir yn ei gwm pell.



Y Dyddiau'n Byrhau
Amharu arnom mae'r hwyrnos, a darn
Bach o'r dydd sy'n aros;
Byrhau mae'r dyddiau diddos,
A nawr ymledu mae'r nos.

Mesen
Roedd, am fisoedd, y fesen yno'n glyd
Dan y glaw a'r heulwen;
Hi ddaru droi yn dderwen
Yno i fyw yn eithaf hen.

Goleudy
Ger yr eigion ar greigiau, yn obaith
Mewn rhybudd i longau;
Yno ceir â'r niwl yn cau
Ei lydan oleuadau.

Taith yr Afon
Wrth fynd o'i chell i'r cefnfor pell
Mae'n magu mwy o deulu;
Y ffosydd bach sy'n dod o hyd
I uno'n glyd mewn gwely.

Ers amser maith bu ar ei thaith
Yn rhedeg lawr o'r mynydd,
A gwelir hi ar dywydd sych
Yn ddim ond rhych drwy'r rhosydd.

Fe'i gwelir hi pan fydd ei lli
O liwiau brown a melyn
Yn rhuthro'n wyllt i lawr o'r cwm
A'i sŵn yn drwm a sydyn.

Fe lyfnodd hi sawl maen â'i lli,
A'i dŵr âi dros y rheini
Gan adael yno redfa lân
Uwch cerrig mân yn gloywi.

Dafydd Morris

Ysguthan
Yn goeth y clwyda'r sguthan - yn dalog
Yn ei deiliog glwydfan.
Â hi'n glyd rhwng brigau glân
Uwch y cae clywch y cŵan.




Nadolig
Y delyn bob Nadolig - yn tiwnio
Y tyner galennig;
Iesu i fywyd ysig
Y bore hwn ddaeth i'r brig.

Diwedd Prydeindod
Hydref yr ymerodraeth - a welodd
Chwalu'r hen olyniaeth;
Di-droi'n-ôl ei marwolaeth,
Hwb i'w safn ei bwa saeth!

Gaeaf
Yn gannaid y daeth gynnau
Gan ddirwyn rhwng y brwyn brau,
Ar y ffridd a glannau'r ffrwd,
A'i gam oediog dros gwmwd.
Dwyn ei rew ar daen i'r rhos,
Ei ddwyn yn oriau'r ddunos;
Y dderwen dan gynddaredd
Y gwynt yn druan ei gwedd,
A'r afon yn llawn rhyfyg,
Crychni'r don ar gyrion gwig.
Ei farrug a'i gaddug oer
Unlliw â grudd y wenlloer,
Fel offeiriad ar wlad laith
A gerwin wg ei araith
Yn bregeth dros blwyf brigwyn,
Yn bader a gosber gwyn.
Tir anfad yw'r wlad lwydaidd
A garw wynt yn deifio'i gwraidd,
Ond daw'r gwanwyn i'r llwyni
A'i ddawn hael yn nawdd i ni.

Goronwy Wyn Owen



Bowlwyr Bethesda

Digon hapus oedd barn Maldwyn Pritchard, capten tîm henoed bowlio Bethesda ar eu perfformiad yng nghynghrair “B” Gwynedd yn ystod yr haf diwethaf.

Ennill 11 a cholli saith gêm wnaethant i ddarvoud yn y pedwerydd safle, er eu bod wedi bod yn brwydro’n galed am yr ail safle tan golli’r dwy gêm ola’r tymor.

Yn ddi-ffael, seren y tîm oedd yr hen ben, Fred Buckley, wrth iddo ennill 14 gêm allan o 18 i ddarvoud yn y pedwerydd safle yn y gynghrair.

Hefyd yn dangos eu talent ac yn gyson iawn oedd Denzil Jones (11-4), Dilwyn Owen (5-1) a Brynmor Jones (3-0) a’r “surprise package”, sef Heddwyn (Trilby) Morris (9-6).

Angen gwneud ychydig yn well oedd barn y capten am Derek (TV) Griffiths (6-6) ond siomedig oedd perfformiadau George Owen (5-10) a Derfel (Llwy Bren) Roberts, a fu’n angor cryf y tîm, wedi iddo golli deg ac ennill chwech. Yn wir, mae’r capten wedi ceisio ei werthu i unrhyw dîm arall yn y gynghrair ond does yr un ohonynt yn fodlon ei gymryd er

bod y ffi trosglwyddiad yn rhesymol iawn, sef dau beint o lager a phaced o grisps.

Yn anffodus, oherwydd diffyg iechyd, dim ond dwy gêm oedd Emyr Roberts a Gareth (Post) Hughes yn medru chwarae, ond mae’r capten yn gobeithio y byddent yn teimlo’n ddigon da i ddychwelyd y tymor nesaf.

Yn y gemau parau, dechreuodd y capten a’i bartnar, John Baston ar dân wrth ennill y chwe gêm gyntaf, ond diffodd wnaeth y fflam ac yn y diwedd roedd record y capten yn 9-7 a John yn 7-5. Wedi i John wneud difrod i’w ysgwydd ar ôl baglu dros ochr pafin tu allan i’w gartref ar ôl bod yn dathlu ar faes yr Eisteddfod trwy’r prynhawn yn mis Awst, nid oedd yn medru chwarae gweddill y tymor a chymerodd Wendy Thomas ei le gan dangos ei thalent i helpu’r capten gan ennill dwy gêm allan o ddwy. Penderfyniad anodd fydd i’r capten ddewis ei bartnar felly y tymor nesaf.

Hoffai Maldwyn ddiolch i’r tîm i gyd am eu hymroddiad drwy’r haf ac hefyd i Rita a Gareth Lewis am eu cefnogaeth cyson. (MP)



Tîm henoed clwb bowlio Bethesda yn derbyn tlws Clive Llewelyn am y drydedd flwyddyn yn olynol wedi’r gêm flynyddol yn erbyn Llanfairfechan

SAMARIAID

Mac
Llinell Gymraeg

0808 164 0123

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Ymgymmerwr adeiladu a
gwaith saer

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

☎ 01248 298763

Arfbais Douglas Arms

Cwrw Casgen - Gardd Gwrw

Noson Cwis Yr ail nos Fawrth bob mis - 20:00

ORIAU AGOR

Llun - wedi cau

Mawrth - Gwener 18:00 - 23:00

Sadwrn 15:30 - 00:00

Sul 13:00 - 15:00 a 20:00 - 23:00

douglasarmsbethesda.com

01248 600219

BYSUS

D. J. Owens

RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195

BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATŷ.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Ogwen

Adferiad Corfforol
Physical Rehabilitation

Proffesiynol, diogel a chyfrinachol

LLEDDFU POEN Cefn, cyhyrau, esgyrn,
cymalau, a thensiwn cur pen

Eli Lichtenstein

☎ 07743373895 ✉ Ogwen.Physical.Rehab@gmail.com

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619

moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY

UNIPART

CAR CARE
CENTRE